



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

ANSAWDD ADRODDIAD

2023 - 2024



Tabl Cynnwys

RHAN 1 – CYFLWYNIAD I FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR	3
Cyflwyniad	3
RHAN 2 – RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR	4
RHAN 3 – YMRWYMIAD I WELLA ANSAWDD	6
Agwedd y Bwrdd Iechyd at y Ddyletswydd Ansawdd	6
Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal	8
Gwneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ansawdd	8
System Rheoli Ansawdd	9
Adrodd ar Ansawdd	10
RHAN 4 – EDRYCH YN ÔL AR 2023-24	12
Mesurau Arbennig	12
Canlyniad 1 - Bwrdd sy'n gweithredu'n dda	12
Canlyniad 2 - Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24	14
Canlyniad 3 - arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryfach	15
Canlyniad 4 – Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad i ddinasyddion	16
Canlyniad 5 – Cydnabod bod Prifysgol Betsi Cadwaladr yn sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun	18
RHAN 5 – EDRYCH YMLAEN AT 2024-25	19
Ein Cynlluniau ar gyfer 2024/25	19
5 Amcan Strategol	20
Arwain dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ansawdd	21
Sefydliad sy'n Dysgu ac yn Gwella	21
Ymchwil, Datblygu ac Arloesi	22
RHAN 6 - CYFATHREBU, YMGYSYLLTU A PHROFIAD CLEIFION	23
Ymagwedd y Bwrdd Iechyd o ran cyfathrebu, ymgysylltu a phrofiad cleifion	23
ATODIAD A – ADRODDIAD BLYNYDDOL DYLETSWYDD GONESTRWYDD A GWEITHIO I WELLA 2023-2024	31
SUT GWNAETH Y BWRDD IECHYD BERFFORMIO O RAN Y DDYLETSWYDD GONESTRWYDD YN YSTOD 2023-24	33
SUT GWNAETH Y CONTRACTWYR GOFAL SYLFAENOL BERFFORMIO O RAN Y DDYLETSWYDD GONESTRWYDD YN 2023-24	36
SUT GWNAETH Y BWRDD IECHYD BERFFORMIO O RAN GWEITHIO I WELLA YN YSTOD 2023-24	39

RHAN 1 – CYFLWYNIAD I FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Cyflwyniad

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), wedi ymrwymo i gyflawni'n gyson, yn unol â gwerthoedd y sefydliad. Dyma'r Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb o £1.87 biliwn a gweithlu o dros 19,000 o staff.

Mae'r sefydliad yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i dros **700,000 o bobl** ar draws chwe sir y gogledd (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydlynu gwaith **96 practis meddyg teulu**, a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan **78 practis deintyddol ac orthodontig**, **70 practis optometreg** ac optegwyr a **145 o fferyllfeydd** yng Ngogledd Cymru.

Mae hyn yn gwneud y Bwrdd Iechyd yn gyflogwr ac yn ddarparwr gofal iechyd arwyddocaol, ac yn chwaraewr allweddol mewn sawl maes o weithio mewn partneriaeth.

Ym mis Chwefror 2023, cafodd y Bwrdd Iechyd ei roi o dan **Fesurau Arbennig** oherwydd nifer o bryderon yn ymwneud â chyflawni, perfformiad a llywodraethu yn y sefydliad. Mae wedi sefydlu fframwaith ar gyfer cyflawni yn erbyn y meysydd sy'n peri pryder a meysydd sy'n arbennig o berthnasol i Fesurau Arbennig.

Yn ei **Gynllun Blynyddol 2023/24**, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gadarnhau ei ddull gweithredu ar gyfer cyflawni ei flaenoriaethau strategol mewn perthynas â blaenoriaethau Gweinidogol a blaenoriaethau lleol, ynghyd â'n hymateb i Fesurau Arbennig, drwy geisio sefydlogi ac adfer ein darpariaeth a'n perfformiad. Ym mis Mawrth 2024, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gyhoeddi ei adroddiad 'Blwyddyn yn Ddiweddarach', sy'n cadarnhau'r cynnydd y mae wedi'i wneud hyd yma ac amcanion strategol y sefydliad ar gyfer 2024/25.

Nawr, bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys y meysydd a nodwyd i'w gwella fel rhan o Fesurau Arbennig yn ei ddull cynllunio cyffredinol. Mae'r ffordd hon o weithio yn sicrhau fod y sefydliad yn gwreiddio ei ddysgu ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Er mwyn cyflawni hyn, maent wedi gwreiddio eu hymateb i Fesurau Arbennig yn y **Cynllun 3 Blynedd ar gyfer y Bwrdd Iechyd 2024-27**. Bydd hyn yn sicrhau dull gweithredu integredig drwy lens ansawdd, gan helpu i sicrhau ei fod yn cael ei yrru gan ansawdd o ran gwneud penderfyniadau.

RHAN 2 – RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD A’R PRIF WEITHREDWR

Mae’n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Ansawdd Blynyddol y Bwrdd Iechyd, y tro cyntaf iddo gael ei gyhoeddi ar wahân i’n Hadroddiad Blynyddol.

Mae **ansawdd a diogelwch** y gwasanaethau rydym yn ei ddarparu i bobl Gogledd Cymru yn hollbwysig. Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r cynnydd rydym wedi’i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf mewn sawl maes gwahanol, gan gynnwys rhoi cynlluniau ar waith i leihau rhestrau aros hir, dechrau’r gwaith ar ganolfan orthopedig newydd gwerth miliynau o bunnoedd yn Llandudno a gwella gwasanaethau iechyd meddwl i’n pobl ifanc.

Fel y nodir yn **Rhan 4** yr adroddiad hwn, rydym wedi lleihau nifer y bobl sy’n aros 52 wythnos am apwyntiad cyntaf 45% dros y flwyddyn ddiwethaf; cafodd y **gwasanaethau fasgwlaidd** adolygiad allanol cadarnhaol gan Arolygiaeth Iechyd Cymru ac wedi cael ei isgyfeirio yn sgil hynny; ac rydym wedi cyflwyno ffyrdd newydd o drin a rhoi diagnosis o rai canserau, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artifisial ar gyfer canserau’r fron a’r brostad.

Cymeradwyodd y Bwrdd ein **System Rheoli Ansawdd** yn gynharach eleni, a fydd yn tywys ein staff ar draws y sefydliad i ddatblygu eu hasesiadau rheoli ansawdd a’u gwelliannau. Bydd yr adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio ar draws y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio i ddechrau ar wella ein gwasanaethau fasgwlaidd a wroleg ymhellach. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **Adran 3**.

Nid haen ychwanegol o lywodraethu neu fiwrocratiaeth yw’r System Rheoli Ansawdd, ond set o egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio i edrych ar ein hagwedd at ansawdd ar lefel sefydliadol a lleol. Mae’n gwella, yn ategu ac yn cryfhau ein prosesau presennol.

Ond rydym yn gwybod bod angen i ni sicrhau bod pobl yn cael **mynediad amserol at wasanaethau iechyd a llesiant**, yn enwedig yn rhai o’r ardaloedd hynny sydd ag amseroedd aros hir iawn ar hyn o bryd. Rydym yn benderfynol o barhau ar ein taith wella er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau i’r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Er ein bod yn gwneud cynnydd da o ran datblygu ein prosesau a’n systemau **llywodraethu ansawdd**, rydym hefyd yn wynebu materion difrifol a etifeddwyd y mae’n rhaid mynd i’r afael â nhw’n gyflym. Mae hyn yn cynnwys achosion a amlygwyd gan **Grwneriaid EF** ac **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** fel methu â gweithredu’n brydlon gyda’r broses gwyno, cynllunio a chymorth strategol annigonol neu aneffeithiol, prydlondeb ymchwiliadau a’r ddibyniaeth barhaus ar gofnodion cleifion ar bapur.

Rydym wedi cwblhau cam cyntaf ein rhaglen **dysgu o ymchwiliadau** sydd wedi cyfrannu at roi polisi integredig newydd ar waith ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau, cwynion a marwolaethau. Mae bellach yn ymgorffori gwaith cynnwys cleifion neu deuluoedd o’r dechrau ac mae’n cynnwys cyfraniadau staff drwy gydol y broses. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **Rhan 5** yr adroddiad hwn.

Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud hefyd i ddatblygu achos busnes dros gofnod gofal iechyd electronig ar gyfer Gogledd Cymru, gan alluogi trawsnewid systemau gofal a chefnogi staff i ddarparu gofal hyd yn oed yn fwy effeithiol. Mae’r Adnoddau wedi’u halinio â gwasanaethau clinigol allweddol ar y rheng flaen, gan roi cymorth ychwanegol i’r meysydd hynny sydd fwyaf mewn angen.

Mae **ymwybyddiaeth** ac ystyriaeth y **Bwrdd** o ansawdd, diogelwch a phrofiad gwasanaethau ar draws y sefydliad wedi gwella gydag adroddiad ansawdd yn cael ei gyflwyno ym mhob cyfarfod. Hefyd, cyflwynwyd

adroddiad ar **brofiad y dinesydd** ac mae'n cael ei gyflwyno i gyfarfodydd y bwrdd bob chwarter blwyddyn, ynghyd â stori am brofiad y claf, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i'r aelodau o'r materion cyfredol a rhoi cyfle i ddysgu a datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y claf.

Rydym wedi dangos **meysydd i'w gwella** yn ystod y flwyddyn, gyda lefelau gweithgarwch ar draws bron pob agwedd ar ein gwasanaethau yn adeiladu ar welliannau ers y llynedd ac yn parhau i gynyddu, ac rydym wedi llwyddo i gyflawni nifer o brosiectau strategol allweddol, fel yr amlinellir yn **Rhan 3**.

Ni fyddem yn gallu gwneud hyn heb **wytnwch, ymrwymiad a brwdfrydedd** ein holl staff, sy'n rhoi anogaeth a gobaith i ni ar gyfer y dyfodol.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i **weithio ochr yn ochr â phartneriaid** gan gynnwys cydweithwyr yn y GIG fel Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd sector, i adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma. Byddwn yn adeiladu sefydliad effeithiol gyda chynllun cadarn ar gyfer gwelliant hirdymor, gydag ansawdd yn ganolog iddo, i sicrhau'r **canlyniadau a'r profiad gorau posibl** i bobl Gogledd Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gweledigaeth a sut byddwn yn gwneud hyn ar gael yn ein [Cynllun Tair Blynedd 2024-27](#). Os hoffech chi wybod mwy am yr hyn rydym yn ei wneud fel Bwrdd Iechyd, y gofal rydym yn ei ddarparu, sut rydym yn cynllunio, yn darparu ac yn gwella eich gwasanaethau gofal iechyd lleol, ynghyd â'n llwyddiannau a'n heriau, gallwch ddarllen am hyn yn ein [Hadroddiad Blyneddol a'n Cyfrifon 2023/24](#).



**DYFED
EDWARDS**
Chair,
BCUHB



**CAROL
SHILLABEER**
Chief Executive,
BCUHB

RHAN 3 – YMRWYMIAD I WELLA ANSAWDD

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd, gan weithio gyda staff i archwilio'r ffordd orau o weithredu System Rheoli Ansawdd gadarn i gefnogi a sicrhau penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar ansawdd. Bydd y dull hwn o ymdrin ag ansawdd yn arwain at well dibynadwyedd, gwelliannau o ran cynaliadwyedd, gwell profiad a gwell canlyniadau clinigol.

Gydag ansawdd yn dod yn ganolbwynt i strategaeth yn hytrach na bod yn gydran o strategaeth y Bwrdd Iechyd, bydd hyn yn sbarduno'r ffordd y mae'r sefydliad yn rheoli ansawdd ac yn diwallu anghenion ein pobl. Bydd hefyd yn siapio'r broses flynyddol o adrodd ar ansawdd yn y dyfodol drwy weithio mewn ffordd fwy systematig a safonol.

Un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar ansawdd yw gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd ledled Cymru. Cafodd y Ddyletswydd Ansawdd ei chyflwyno o dan **Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020**.

Daeth y Ddyletswydd Ansawdd i rym ym mis Ebrill 2023 ac mae'n rhoi cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru a chyrrff GIG Cymru i sicrhau, pan ein bod yn gosod cynlluniau strategol, bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud hynny trwy lens ansawdd. Mae'r ddyletswydd ansawdd yn nodi'r camau nesaf yn nhaith y sefydliad tuag at wella ansawdd er mwyn sicrhau gwasanaethau sy'n fwy agored, tryloyw ac addysgol.

Dyma ddiffiniad y Ddyletswydd Ansawdd o ansawdd **“Diwallu anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu yn barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy”**.

Nodau cyffredinol y Ddyletswydd Ansawdd yw:

- Gwella ansawdd gwasanaethau iechyd
- Gwell canlyniadau i boblogaeth Cymru

Mae **pedair elfen allweddol** i'r Ddyletswydd Ansawdd;

1. Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal
2. Gwneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ansawdd
3. Systemau Rheoli Ansawdd
4. Adrodd ar ansawdd

Trwy wreiddio a rhoi'r cydrannau hyn ar waith, bydd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gynllunio, darparu a monitro ei wasanaethau, gan asesu'r effaith y bydd ei benderfyniadau'n eu cael ar ansawdd y gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu darparu ac optimeiddio'r ffordd mae'r sefydliad yn dysgu a gwella, gan ein galluogi i sicrhau'r canlyniad a'r profiad gorau i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Agwedd y Bwrdd Iechyd at y Ddyletswydd Ansawdd

Mae Gweithrediaeth GIG Cymru wedi cefnogi a chydweithio â chyrrff y GIG ledled Cymru ers cyn i'r Ddyletswydd Ansawdd ddod i rym ym mis Ebrill 2023, gan arwain ar ddull gweithredu cenedlaethol i wreiddio'r Ddyletswydd Ansawdd. Nod y Grŵp Cyfeirio Dyletswydd Ansawdd, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Rhaglen y Rhaglen Ansawdd a Diogelwch Genedlaethol, oedd llywio'r cynllun gwaith

dyletswydd ansawdd ar gyfer 2023/2024 ar y cyd â chynrychiolwyr o gyrff y GIG, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig, a phartneriaid cenedlaethol.

Mynychodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd y grŵp hyd at ei ddiwedd ym mis Mawrth 2024, ac maent yn parhau i weithio ar y cyd â chynrychiolwyr ansawdd a diogelwch cleifion Gweithrediaeth GIG Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd a'r dull o lywodraethu ansawdd a rheoli ansawdd.

Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma?

- Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd Ansawdd yn cael ei gynnal ar draws y Bwrdd Iechyd ar bob lefel, gyda rhaglen e-ddysgu ar gael ar y Cofnod Staff Electronig (ESR) a Learning@Wales er mwyn i holl staff y GIG allu cael mynediad at y dysgu.
- Mae Pecyn Cymorth Asesu'r Effaith ar Ansawdd wedi cael ei ddatblygu er mwyn gallu gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ansawdd. Mae hyn yn cynnwys y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.
- Mae dull integredig o Gynllunio ar waith a fydd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i nodi meysydd gwella, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynllunio strategol yn seiliedig ar anghenion ei staff a'i phoblogaeth.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull rheoli ansawdd o ran y ffordd mae'n gweithio. Mae'r gwaith hwn yn rhedeg ochr yn ochr â'r adolygiad o Systemau Llywodraethu Ansawdd fel rhan o fesurau arbennig. Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r System Rheoli Ansawdd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Mai 2024. Bydd hyn yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu dull cyson a chydlynol o ymdrin ag ansawdd, gan ddod â'r holl wybodaeth am ansawdd yn y Bwrdd Iechyd at ei gilydd mewn un lle.
- Mae Dangosfwrdd Ansawdd wedi cael ei ddatblygu a fydd yn darparu ffordd gyson o adrodd i'r Bwrdd ac i'r cyhoedd. Mae hyn yn allweddol er mwyn i'r Bwrdd Iechyd fod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan ddata.
- Mae Adroddiad Bwrdd Ansawdd y Bwrdd Iechyd wedi cael ei fireinio i sicrhau ffocws ar ansawdd wrth adrodd, yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd.
- Mae'r templedi Bwrdd a phwyllgor yn cynnwys adran ar oblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol y Ddyletswydd Ansawdd y gellir eu hystyried a helpu i lywio penderfyniadau sy'n seiliedig ar ansawdd drwy sicrhau bod y pwyllgor a'r bwrdd yn ymwybodol o unrhyw effaith ar ansawdd ein gwasanaethau iechyd a achosir gan unrhyw newidiadau y bydd y Bwrdd Iechyd yn eu gwneud.
- Mae'r Fframwaith Dysgu o Ansawdd wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn darparu dull dysgu systematig o lywodraethu ansawdd a sicrwydd. Bydd hyn yn cael ei integreiddio â'r Fframwaith Rheoli Ansawdd.

Beth sydd wedi herio'r Bwrdd Iechyd?

Mae statws mesurau arbennig y Bwrdd Iechyd wedi rhoi cyfle i gryfhau ei seilwaith ar gyfer ansawdd, yn benodol mewn perthynas â chael dull gweithredu integredig, wedi'i gefnogi gan arweinyddiaeth a diwylliant tosturiol, ac wedi'i lywio gan ei staff a'i boblogaeth, gan fod hyn yn rhoi cyfeiriad clir i'n staff a'n rhanddeiliaid ac yn galluogi'r sefydliad i ganolbwyntio ar wella'r meysydd sydd ei angen fwyaf.

Mae mesurau arbennig hefyd wedi rhoi cyfle i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei ddull gweithredu a mireinio ei ffyrdd o weithio i wella ansawdd y gofal y mae'n ei ddarparu a phrofiadau ein cleifion, eu teuluoedd a'u gofaluwr.

Ynghyd â newid mewn arweinyddiaeth, mae dull gweithredu diwygiedig y Bwrdd Iechyd fel sefydliad yn gosod sylfeini'r math o sefydliad rydym am fod ac angen bod.

Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG yng Nghymru sicrhau bod penderfyniadau strategol yn cael eu gwneud o safbwynt ansawdd, gan sicrhau eu bod, **“yn diwallu anghenion y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu yn barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy”**, drwy ddarparu gwasanaethau iechyd sy'n **ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn**.

Er mwyn cyflawni hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi tynnu'r Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) yn ôl ac, yn 2023, wedi cyflwyno'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd sy'n cynnwys y chwe maes ansawdd uchod, a phum galluogwr (**arweinyddiaeth, gweithlu, diwylliant, gwybodaeth, gwella dysgu ac ymchwil a dull systemau cyfan**).



- Mae'r meysydd ansawdd a'r galluogwyr yn gosod y safonau uchel y gall pobl yng Nghymru eu disgwyl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd.
- Byddant yn llywio penderfyniadau sy'n seiliedig ar ansawdd ac yn helpu i gynllunio, darparu a monitro ei wasanaethau gofal iechyd.
- Maent hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli ansawdd gan ei fod yn cysylltu'r ddyletswydd, y safonau, a'r broses rheoli ansawdd ehangach.

Ffigur 1: Y 12 Safon Ansawdd Iechyd a Gofal

Gwneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ansawdd

Wrth symud ymlaen, bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal wrth wneud penderfyniadau am wasanaethau gofal iechyd. Bydd yn gwneud hyn drwy sicrhau eu bod wedi'u gwreiddio ym mhroses gynllunio integredig y Byrddau Iechyd i'w helpu i gynllunio gan ddefnyddio'r safonau hyn i'w arwain. Byddant hefyd yn cael eu defnyddio gan wasanaethau wrth nodi eu cynlluniau cyflawni lleol fel rhan o broses gynllunio flynyddol y Bwrdd Iechyd.

Ar ben hynny, drwy waith ei System Rheoli Ansawdd, bydd y Bwrdd Iechyd yn gwreiddio'r safonau yn ein ffyrdd o weithio ar draws pob lefel o'r sefydliad, gan ei helpu i asesu ansawdd a diogelwch, gan ei alluogi i nodi meysydd i'w gwella.

Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd

Er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ansawdd ar lefel gorfforaethol a gweithredol, bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd fel mecanwaith y gall ei ddefnyddio i ystyried a chofnodi effaith ei benderfyniadau ar ansawdd gwasanaethau gofal iechyd. Bydd y dull hwn yn:

- Llywio penderfyniadau strategol sy'n cael eu gyrru gan ansawdd.
- Nodi ac asesu effaith neu ddylanwad cynnig ar ansawdd a diogelwch y system gofal iechyd, yn unol â'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.
- Nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i leihau risgiau lle gallai ansawdd neu ddiogelwch gael eu heffeithio'n negyddol, a sicrhau bod y risgiau a'r mesurau lliniaru hyn yn bwydo i mewn i brosesau monitro corfforaethol presennol.
- Rhoi sicrwydd o ran gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ansawdd, ynghyd â thrywydd archwilio.

System Rheoli Ansawdd

Mae darparu gofal o ansawdd uchel yn gofyn bod gan y Bwrdd Iechyd ddull cyson a chydlynol o reoli ansawdd sy'n cael ei gymhwyso o'r tîm i lefel Bwrdd. Gelwir hyn yn **System Rheoli Ansawdd**.

Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda Sefydliad Gwella Gofal Iechyd Cymru i ddatblygu dealltwriaeth gref o systemau ansawdd mewn gofal iechyd. Cymeradwyodd y Bwrdd y System Rheoli Ansawdd (Fframwaith) ym mis Mai 2024, gan brofi, adeiladu a mireinio'r system ar ôl hynny. Mae dysgu gan sefydliadau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol yn cefnogi'r gwaith hwn.

Mae'r model System Rheoli Ansawdd sy'n cael ei ddatblygu yn y Bwrdd Iechyd (Ffigur 1), yn mabwysiadu'r pedwar maes rheoli ansawdd, fel blaenoriaethau cyfartal ac wedi'u halinio.

Yn ganolog i'r model System Rheoli Ansawdd mae'r ymrwymiad i fod yn sefydliad **sy'n dysgu, sy'n gwella ei hun, sy'n cael ei arwain gan ddata ac sy'n gwasanaethu pobl gogledd Cymru**.

Nid haen ychwanegol o lywodraethu neu adrodd yw'r model System Rheoli Ansawdd, ond yn hytrach set o egwyddorion y bydd y Bwrdd Iechyd yn eu defnyddio i edrych ar ei agwedd at ansawdd ar lefel sefydliadol a lleol. Mae'n



Ffigur 2: Diagram i ddangos y cysylltiad rhwng pedair cydran System Rheoli Ansawdd

gwella, yn ategu ac yn helpu i gryfhau'r drefn lywodraethu bresennol ymhellach.

Dylai systemau rheoli ansawdd effeithiol a ddefnyddir yn ailadroddus arwain at amrywiaeth o fanteision i'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau, yn ogystal â'r rheini sy'n darparu gwasanaethau.

Bydd yn helpu'r Bwrdd Iechyd i wneud y canlynol:

- datblygu prosesau i helpu gwasanaethau i ddeall eu blaenoriaethau ar gyfer gwella;
- dylunio ymyriadau priodol i wneud y gwelliannau hynny;
- datblygu prosesau i helpu i gynnal lefelau derbyniol o ansawdd a rhybuddio cynnar i dynnu sylw at adegau pan fydd ansawdd yn llithro; ac
- adeiladu gwybodaeth a chyflymu gwelliannau mewn canlyniadau.

Bydd hyn yn cefnogi pob aelod o staff, o lefel gwasanaeth i lefel bwrdd, i deimlo'n hyderus:

- eu bod yn deall beth sy'n bwysig i'r rheini sy'n defnyddio eu gwasanaethau;
- eu bod yn cael eu cefnogi a'u cysylltu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel;
- bod ganddynt fynediad at ddata perthnasol i'w galluogi i wybod pryd maen nhw'n gwneud yn dda ac i wybod yn gyflym os bydd ansawdd yn llithro; ac
- eu bod yn cael eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a gwella'r gwasanaethau hynny bob dydd.

Adrodd ar Ansawdd

Mae rhannu gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau gyda'n poblogaeth yn bwysig i'r Bwrdd Iechyd, ac mae hefyd yn ddisgwyliad o fewn y ddyletswydd ansawdd.

Mae'r cysyniad o **adrodd ar ansawdd 'bob amser'** wedi cael ei ddatblygu i helpu i gyflawni rhwymedigaethau adrodd ar ansawdd y sefydliad. Mae 'bob amser' yn golygu casglu, dadansoddi, monitro a sicrhau bod gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau ar gael



Ffigur 3: Adrodd ar Ansawdd 'Bob Amser'

Mae'n hyrwyddo bod yn agored ac yn dryloyw gyda'n poblogaeth a'n rhanddeiliaid.

Mae hefyd yn bwysig bod staff yn defnyddio gwybodaeth a mesurau sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod staff y Bwrdd Iechyd yn cael eu gyrru gan ddata yn eu gweithgarwch i wella ansawdd gwasanaethau.

Sut bydd y Bwrdd Iechyd yn monitro ansawdd ei wasanaethau

- Dangosyddion a mesurau perfformiad, canlyniadau a chyflawni presennol

- Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion a Mesurau Profiad Cleifion (PROMS a PREMS)
- Mesurau marwoldeb
- Digwyddiadau, canmoliaeth a phryderon
- Straeon cleifion a staff
- Adroddiadau yn dilyn adolygiadau neu arolygiadau allanol gan arolygiaethau a chyrrff trwyddedu

Sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn gwybod bod gwelliannau wedi cael eu gwneud

- Hunanasesiad
- Adolygu ac adborth gan gymheiriaid
- Archwiliad Clinigol Cenedlaethol
- Archwilio Mewnol
- Adolygiadau allanol, er enghraifft, Arolygiadau Swyddfa Archwilio Cymru, er enghraifft, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dangoswrdd Ansawdd

Mae datblygu'r Dangoswrdd Ansawdd yn allweddol i adrodd 'bob amser' a rhoi gwybod i'r boblogaeth am berfformiad y sefydliad o ran pa mor dda y mae'n gwneud a'r meysydd y mae angen eu gwella. Y dangoswrdd ar sut rydym yn perfformio mewn meysydd ansawdd allweddol fel;

- Adborth gan Gleifion
- Cwynion
- Digwyddiadau Diogelwch Cleifion
- Briwiau pwysu a gafwyd yn sgil gofal iechyd (HAPU)
- Cyfraddau heintiau
- Cydymffurfio â Gofal Diogel
- Staffio

Bydd y dangoswrdd yn darparu data ar unwaith sy'n ymwneud â metrigau allweddol sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Perfformiad Integredig, a bydd yn cefnogi staff i ddadansoddi metrigau'r gweithlu, cydymffurfio â gofal diogel, a fflagiâu coch gofal diogel. Bydd y Fframwaith Perfformiad Integredig yn darparu data ansawdd craidd ar gyfer adrodd rheolaidd ar draws y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau cysondeb a thrioglï, gan helpu i gynyddu lefelau sicrwydd ar gyfer y dyfodol.



Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso a Bydwreigiaeth, yw uwch swyddog cyfrifol y rhaglen. Dywedodd Angela: *“Bydd y dangoswrdd yn helpu ein holl staff ledled Gogledd Cymru i gael gafael ar amrywiaeth o ddata sy'n ymwneud â materion ansawdd yn gyflym ac yn effeithlon.*

Trwy ddod â data at ei gilydd mewn un lle, bydd staff yn gallu gweld eu perfformiad ar unwaith, a byddant hefyd yn gallu edrych yn fanylach ar ddata lle bo angen. Mae llawer o waith yn mynd tuag at helpu i'w gwneud hi'n haws cael gafael ar y wybodaeth hon a gweithredu arni, gan ganolbwyntio'n wirioneddol ar gefnogi cydweithwyr i wneud y newidiadau a'r gwelliannau maen nhw eisiau eu gwneud.”

Ffigur 4: Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso a Bydwreigiaeth,

RHAN 4 – EDRYCH YN ÔL AR 2023-24

Mesurau Arbennig

Nid yw byth yn beth da i unrhyw gorff cyhoeddus gael ei roi mewn Mesurau Arbennig, ond mae wedi helpu i hoelio ein sylw ar elfennau o'n gwasanaeth y mae angen eu gwella.

Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi gweld gwelliannau ac mae cleifion yn cael eu trin yn gynt mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, mae nifer y bobl sy'n aros mwy na 52 wythnos am apwyntiad cyntaf wedi gostwng 45% a bu gostyngiad o 37% ar y rheini sy'n aros dros 104 wythnos.

Fe wnaeth Arolygiaeth Iechyd Cymru isgyfeirio gwasanaethau fasgwlaidd a chawsant adolygiad allanol cadarnhaol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo ein cynlluniau ar gyfer canolfan orthopaedig gwerth miliynau o bunnoedd yn Llandudno a fydd yn trin 1,900 o gleifion ychwanegol y flwyddyn pan fydd yn weithredol yn 2025.

Erbyn hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd restr lawn o Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd sy'n gallu sicrhau bod ein hisbwyllgorau'n craffu ar ein gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi yn ein staff ac yn annog diwylliant gweithio cadarnhaol sy'n agored ac yn dryloyw er mwyn i bawb allu rhannu eu barn a'u syniadau i wella profiad cleifion.

Rydym wedi gwneud cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf ond mae tipyn o waith i'w wneud eto. Mae'n bwysig ein bod yn gwella ein gwasanaethau fel ein bod yn gadael mesurau arbennig, ond mae'n bwysicach fyth sicrhau bod yr holl wasanaethau rydym yn eu darparu'r rhai gorau i bobl Gogledd Cymru.



Canlyniad 1 - Bwrdd sy'n gweithredu'n dda

Yn adroddiad Asesiad Strwythuredig 2023, mae Archwilio Cymru yn cyfeirio at y gwelliannau a wnaed o ran llywodraethu ac yn amlinellu'r angen i gryfhau tryloywder ac effeithiolrwydd y bwrdd ymhellach, ynghyd â'r systemau sicrwydd corfforaethol, yr agwedd at gynllunio a rheoli adnoddau ariannol. Mae

canfyddiadau'r Asesiad Strwythuredig hefyd yn cael eu llywio gan *Adolygiad Dilydol o Effeithiolrwydd Byrddau Archwilio Cymru 2023*. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno'n llwyr â chanfyddiadau allweddol adroddiad Effeithiolrwydd y Bwrdd, sef bod y Bwrdd yn fwy sefydlog, gydag arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryfach yn amlwg a felly bod gwelliant sylweddol wedi bod yn ystod 2023/24. Fodd bynnag, mae angen gwneud llawer mwy i wella trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos bod angen gwneud gwelliannau sylweddol cyn y gellir cynnal asesiad sicrwydd rhesymol ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol.

Mae Rhaglen Datblygu'r Bwrdd wedi cael ei datblygu ac mae'n cael ei rhoi ar waith, gan gynnwys canolbwyntio ar feysydd fel:

- Arweinyddiaeth Dosturiol

- Iechyd Meddwl
- Cynllunio
- Rheoli perfformiad
- Rheoli risg
- Digidol
- Ansawdd
- Cynllunio ar gyfer gwrthsefyll pwysau'r gaeaf

Cyflawniadau hyd yma:

- Penodwyd Prif Weithredwr parhaol a phrofiadol, gyda phrofiad o GIG Cymru.
- Penodwyd Cadeirydd, Is-gadeirydd a phedwar Aelod Annibynnol parhaol yn dilyn proses penodiadau cyhoeddus.
- Cytunwyd ar y Fframwaith Rheoli Risg Newydd yn y Bwrdd ym mis Medi, gyda'r broses o'i weithredu ar y gweill ac yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio.
- Mae'r adolygiadau annibynnol a gafwyd hyd yma wedi cael eu hystyried yn Sesiynau Datblygu Pwyllgorau'r Bwrdd, cyn i'r ymatebion rheoli gael eu datblygu. Tynnwyd sylw at y rhain yn yr adroddiadau Mesurau Arbennig rheolaidd i'r Bwrdd llawn.
- Gwnaed cynnydd da yn y trefniadau llywodraethu corfforaethol gan gynnwys strwythurau Pwyllgor y Bwrdd a chylch busnes, gyda phenodiad yn cael ei wneud i rôl ddiwygiedig y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.

Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd groesawu adroddiad diweddaraf Archwilio Cymru (15 Chwefror 2024) sy'n datgan bod y Bwrdd, o'i gymharu â blwyddyn yn ôl, mewn sefyllfa fwy sefydlog a bod y berthynas waith rhwng uwch arweinwyr yn fwy cadarnhaol.



Dywedodd Dyfed Edwards, y Cadeirydd: “Rwy’n croesawu’r adroddiad hwn sy’n cydnabod y cynnydd y mae’r Bwrdd Iechyd wedi’i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n deall yn iawn fod llawer mwy i’w wneud wrth inni barhau ar ein taith wella er mwyn sicrhau gwasanaethau gofal iechyd rhagorol i bobl y gogledd.”

“Rwy’n gweld adroddiad Archwilio Cymru fel carreg filltir i ddangos ein bod yn symud i’r cyfeiriad iawn. Mae gennym bellach sylfaen gadarn i adeiladu arni, gyda Phrif Weithredwr ac aelodau Bwrdd newydd yn eu lle sydd wedi ymrwymo i wella ein llywodraethu, ein rheolaeth ariannol ac, yn y pen draw, gwella ansawdd y gofal a ddarperir a phrofiadau ein cleifion a’u teuluoedd.

“Rwy’n ddiolchgar am gefnogaeth ein partneriaid a’r Llywodraeth yn ein holl ymdrechion.”

Ffigur 5: Dyfed Edwards, Cadeirydd BIPBC

Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn 2024/25:

- Mae'r gwaith o weithredu cynllun y Portffolio Gweithredol wedi dechrau, ond bydd o reidrwydd yn parhau yn FY24/25.
- Nawr bod gan y Bwrdd lechyd nifer llawn o Aelodau Annibynnol, bydd yn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd mewn sefyllfa fwy sefydlog i fwrw ymlaen â'r gwaith ar lywodraethu corfforaethol, sefydlu'r Grŵp Rheoli Busnes Corfforaethol a rhoi unrhyw bolisiau a gwelliannau newydd ar waith yn llawn.
- Yna, bydd "Polisi ar Bolisiau" yn cael ei dywys drwy'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol i amlinellu'r safonau arfer gorau ar gyfer datblygu polisiau ar draws y Bwrdd lechyd a chadw atynt.



Canlyniad 2 - Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24

Mae'r gofynion yn y canlyniad hwn yn ceisio gwella gallu'r sefydliad i ddatblygu gallu wrth gynllunio, gan gydnabod nad yw'r Bwrdd lechyd wedi gallu datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 3 Blynedd addasadwy ers sefydlu'r gofyniad. Ar ben hynny, mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar wella perfformiad a llywodraethu ariannol.

Cyflawniadau hyd yma:

- Cynllun Blyneddol (2023/24) wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mehefin 2023. Cafwyd adborth cadarnhaol ar hyn ac mae'n rhoi'r llwyfan ar gyfer symud tuag at ddull cynllun 3 blynedd ar gyfer 2024/27.
- Fframwaith Cynllunio Integredig wedi'i ddatblygu, ei gymeradwyo gan y Bwrdd a'i roi ar waith.
- Fframwaith Perfformiad Integredig wedi'i ddatblygu, ei gymeradwyo yn y Bwrdd ym mis Medi, gyda'r gweithredu wedi dechrau.
- Cymeradwywyd yr Adolygiad Cynllunio Annibynnol gyda chynnydd yn cael ei adrodd drwy strwythur Pwyllgorau'r Bwrdd lechyd
- Derbyniwyd yr Adolygiad Rheoli Caffael a Chontractau Annibynnol a nodwyd cynnydd da yn erbyn yr argymhellion drwy'r Pwyllgor Archwilio.
- Mae'r Camau Rheoli Ariannol wedi mynd rhagddynt yn dda, gyda'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI), y Cynllun Cadw a Dirprwyo (SORD) a'r Rheolau Sefydlog yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd.
- Darparwyd hyfforddiant Caffael wedi'i Dargedu i dros 500 o staff PBC ar wahanol lefelau, gan gynnwys y Tîm Gweithredol.

Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn 2024/25:

- Mwy o waith i fod yn sail lawn i heriau a chyfleoedd ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ogystal â chyflawni'r Cynllun Ariannol, gan ystyried blaenoriaethau Mesurau Arbennig a'r Cynllun 3 Blynedd.
- Ymateb i'r Adolygiad Cynllunio a gweithredu'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn llawn.
- Gofynion staffio cyllid rheolaidd a phrosesau recriwtio parhaol parhaus.

Canlyniad 3 - arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryfach



Mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar wella sefydlogrwydd arweinyddiaeth yn y sefydliad yn ogystal â galluogi ymgysylltu ac ymwneud mwy effeithiol â staff yn fewnol a rhanddeiliaid a chymunedau yn allanol.

Rhaid i'r sefydliad ganolbwyntio ar wella'r diwylliant a'r ffordd y caiff arweinwyr eu denu, eu nodi, eu datblygu a'u cadw. Rhaid gwneud gwelliannau hefyd i'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu ac yn cynnwys cymunedau, staff a rhanddeiliaid.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i arweinyddiaeth gref a gweladwy yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys gyda'r cyfryngau a'r cyhoedd, i ail-adeiladu ymddiriedaeth yn y gwasanaethau y mae BIPBC yn eu darparu.

Cyflawniadau hyd yma:

- Cymeradwyodd y Bwrdd (ym mis Medi 2023) ei Fwriad Strategol ynglŷn â datblygu Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu, gan gytuno ar naw maes ffocws cychwynnol allweddol.
- Sefydlwyd Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol newydd i arwain y gwaith, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr. Mae Pwyllgor Pobl a Diwylliant (y Bwrdd) newydd gael ei ffurfio, dan gadeiryddiaeth Cadeirydd y Bwrdd Iechyd.
- Datblygu arweinyddiaeth dryloyw, gadarn a gweladwy, yn benodol ar faterion allweddol, e.e. [Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) a chyfweiliadau â'r cyfryngau.
- Mae dull gweithredu newydd ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol wedi cael ei ddatblygu a'i roi ar waith, gan gynnwys Ffeiriau Iechyd a gynhelir mewn canolfannau cymunedol lleol, sy'n galluogi sgysiau rhwng y Bwrdd Iechyd a chymunedau lleol.
- Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned yn ystod chwarter pedwar yn 2023/24, gan brofi a mireinio'r dull gweithredu ar gyfer digwyddiadau pellach ar draws y rhanbarth yn ystod 2024.
- Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig newydd yn ei gamau datblygu terfynol ar gyfer ei roi ar waith o fis Mawrth 2024 ymlaen.
- Adroddiad 'Gwrando ar Gleifion, Teuluoedd a Chymunedau' drafft a dderbyniwyd gan yr Ymgynghorydd Annibynnol, gyda'r canfyddiadau a'r argymhellion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Dull ymgysylltu newydd wedi'i fabwysiadu gyda'r rheini y mae materion gwasanaeth fasgwlaidd yn effeithio arnynt.
- Adolygiad Cyflym o Ymgysylltu Clinigol wedi'i gwblhau, a'i ystyried gan y Tîm Gweithredol a'r Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol cyn i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ei ystyried.
- Mae cyfres o Gynadleddau Arweinyddiaeth yn cael eu rhoi ar waith. Yn dilyn diwrnod cyfan o sesiwn Bwrdd cyfan ar Arweinyddiaeth Dosturiol, cynhaliwyd cynhadledd ar draws y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth dosturiol a diwylliant, gyda sesiynau gan yr arbenigwyr Michael West a Henry Engelhardt.
- Mae gostyngiad sylweddol yn y defnydd o staff interim asiantaeth cost uchel, o 41 ym mis Rhagfyr 2022 i 2 erbyn diwedd mis Chwefror 2023.

Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn 2024/25:

- Mae angen gwneud archwiliad llawn o'r Model Gweithredu, gan ddefnyddio gwaith Archwilio Mewnol, adborth gan rhanddeiliaid/cydweithwyr allanol ac adborth gan gydweithwyr yn fewnol i ddeall y buddion a'r problemau.

- Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig: Mae hyn yn dal i gael ei ddatblygu a bydd cael perchnogaeth weithredol ar y fframwaith yn allweddol i sicrhau bod unrhyw newid mewn diwylliant yn cael ei wreiddio'n wirioneddol.
- Ailedrych ar werthoedd y sefydliad a'u diwygio lle bo angen: Mae cael gwerthoedd clir, diffiniedig sy'n hysbys ac yn cael eu hymarfer gan yr holl staff yn nodwedd gydnabyddedig o sefydliadau llwyddiannus.
- Fframwaith ymddygiad: Cael fframwaith ymddygiad y cytunwyd arno ac a ddyluniwyd ar y cyd, sy'n eiddo i'r Bwrdd, ac sy'n amlinellu pa fath o sefydliad y mae am fod a pha fath o sefydliad y mae angen iddo fod.
- Cynllun Datblygu Sefydliadol llawn: Mae gwaith wedi dechrau drwy Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol, sydd wedi'i sefydlu ac wedi dechrau trafod y dull gweithredu a'r ffordd i symud ymlaen. Bydd yn cael ei gyflymu ar gyfer 2024/25 a chanolbwyntio hefyd ar Ymgysylltu ac Arweinyddiaeth Glinigol.
- Ehangu'r defnydd o adborth am profiad cleifion i roi dealltwriaeth hanfodol i wasanaethau a ffordd o nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau.
- Rhaglen Newid Diwylliant: Rhoi'r sylfeini cywir ar waith ar gyfer diwylliant cadarnhaol a chefnogol, gan ystyried adborth Arolwg Staff GIG Cymru.



Canlyniad 4 – Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad i ddinasyddion

Y canlyniad hwn yw'r maes sy'n debyg o gael effaith uniongyrchol ar gleifion a chleientiaid, ac nid yw'n annhebyg i sefydliadau eraill y GIG os oes pwysau sylweddol ar wasanaethau. Fodd bynnag, mae materion penodol yn ymwneud â gwasanaethau Gogledd Cymru sy'n galw am weithredu yn y tymor byr a'r tymor hirach.

Mae pobl yn teimlo'n rhwystredig am faint o amser y mae'n rhaid iddynt aros am apwyntiadau. Mae gormod o bobl yn ei chael yn anodd cael gafael ar feddyg teulu neu ddeintydd GIG ac mae gormod yn aros cyfnodau hir am apwyntiadau yn yr ysbyty a phrofion diagnostig pwysig.

Cyflawniadau hyd yma:

- **Gofal wedi'i gynllunio:** Sefydlwyd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio newydd i fwrw ymlaen â gwelliannau systematig. Mae'r rhain yn cynnwys symleiddio a safoni'r dull o archebu ac amserlennu, gweithredu canfyddiadau ac argymhellion GIRFT (Getting It Right First Time) ar draws sawl maes gwasanaeth clinigol, a rhoi datblygiadau ar waith fel 'Sylw yn ôl Symptomau' a 'Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf' a'r 3P 'Promote, Prevent and Prepare' (Hyrwyddo, Atal a Pharatoi) sy'n cynorthwyo pobl sy'n aros am eu hymyriad gofal wedi'i gynllunio.
- Mae cynnydd wedi cael ei wneud ynglŷn ag amseroedd aros gofal wedi'i gynllunio ar draws amrywiaeth o ddangosyddion, gan gynnwys gostyngiad o 19% yn nifer y bobl sy'n aros 208 wythnos i ddechrau triniaeth, gostyngiad o 63% yn nifer y bobl sy'n aros dros 156 wythnos i gael eu hapwyntiad cyntaf neu i fod wedi dechrau triniaeth a gostyngiad o 21% yn nifer y bobl sy'n aros 104 wythnos o'i gymharu â sefyllfa'r llynedd.
- **Fasgwlaidd:** Yn dilyn eu hadolygiad ym mis Mehefin 2023, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru isgyfeirio'r gwasanaeth oddi ar y rhestr 'Gwasanaeth o Bryder'. Mae dwy elfen arall o'r adolygiad yn y broses ar hyn o bryd. Y cyntaf o'r rhain yw adolygiad gan y rhwydwaith Cenedlaethol sy'n adrodd canlyniadau cadarnhaol; mae'r ail wrthi'n cael ei gwblhau.

- **Dermatoleg:** Mae bylchau yn y gweithlu'n achosi her sylweddol i'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, mae cynllun i ddatrys problemau ar unwaith gyda modelu gwasanaeth ar gyfer ateb cynaliadwy yn cael ei roi ar waith. Mae dull gwasanaeth teledermosgopi newydd wedi cael ei gymeradwyo a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.
- **Wroleg:** Mae'r gwasanaeth hwn o dan bwysau oherwydd heriau'r gweithlu a materion yn ymwneud â ffurfweddu'r gwasanaeth. Mae adolygiad GIRFT ac Adolygiad y Coleg Brenhinol wedi dod i law ac mae cynllun ar gyfer y tymor byr ar waith. Bydd angen cynllunio gwasanaeth tymor hirach ar gyfer yr arbenigedd hwn.
- **Iechyd Meddwl:** Mae nifer o elfennau allweddol o'r gwaith wedi cael eu cyflawni, gan gynnwys:
 - **Adolygiad Ansawdd a Diogelwch Cleifion Mewnol:** Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o ddiogelwch cleifion mewnol Iechyd Meddwl yng ngwanwyn 2023 a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith o ganlyniad. Mae adolygiad dilynol wedi cael ei gynnal i arsylwi ac i ddangos lle mae gwelliannau wedi cael eu gwneud a'u cynnal. Yn ogystal, gofynnwyd am farn a phrofiad y rhai nad oeddent yn cael eu cynrychioli yn yr adolygiad cyntaf ynglŷn â'u canfyddiadau o gynnydd neu feysydd sy'n peri pryder, ee staff y ward, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn ogystal â'r rhai a gymerodd ran yn flaenorol.
 - **'Adolygu'r Adolygiadau':** Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi edrych yn ôl ar sawl adolygiad sy'n dyddio'n ôl tua 10 mlynedd i ddeall lle mae cynnydd wedi cael ei wneud.
 - Mae perfformiad o ran mynediad at wasanaethau Iechyd Meddwl yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r gwasanaeth '111 a phwyso 2' newydd bellach yn cael ei gynnig dros gyfnod o 24 awr, gan ddarparu mynediad ar unwaith at gymorth iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddefnyddio'n dda ac mae bellach wedi ffurfio elfen graidd o'r ddarpariaeth ar draws y rhanbarth.
- **Gofal Brys ac Argyfwng:** Mae gwaith gwella mewn Adranau Achosion Brys yn ogystal ag ymhellach i mewn i'r ysbytai yn cael ei wneud, gyda Gofal Brys yr Un Diwrnod yn dal i gael ei ddatblygu, er enghraifft. Mewn perthynas ag oedi o bedair awr wrth drosglwyddo ambiwlansiau, llwyddwyd i wella rhywfaint ar hyn. Fodd bynnag, roedd pwysau'r gaeaf wedi effeithio arno ac mae angen rhagor o welliannau o hyd. Neilltuodd y Bwrdd sesiwn yn ei raglen ddatblygu ar gyfer gofal brys ac argyfwng a chynhaliodd sesiwn 'galw heibio' ar lwybr cleifion ysbyty yn Ysbyty Gwynedd fis Hydref, cyn ystyried Cynllun Cydnerthedd y Gaeaf yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.
- **Oncoleg:** Mae penodiadau staffio Oncoleg allweddol wedi cael eu gwneud er mwyn gallu trin mwy o bobl o fewn BIPBC ac mae cyfleoedd ar y cyd yn cael eu harchwilio gyda Phrifysgol Bangor.
- **Plastigau:** Cwblhau adolygiad cychwynnol o gleifion dermatoleg gyda chontract ar waith gydag Ymddiriedolaeth y GIG Ysbyty Addysgu St Helens a Knowsley a model clinigol partneriaeth cyson a model rhannu data ar waith ar draws BIPBC.

Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn 2024/25:

- Modelu Galw a Chapasiti Manwl sy'n allweddol i sefydlu a sicrhau modelau gwasanaeth cadarn a gwneud gwelliannau cynaliadwy. Oedi - yn dibynnu ar gefnogaeth allanol.
- Parhau i sefydlogi gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd sy'n cael eu "herio", yn enwedig mewn Dermatoleg lle mae amseroedd aros yn lleihau ond mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau'r gwasanaeth a rheoli'r gwaith o drin canser y croen yn amserol.
- Mae angen sefydlogi a lleihau oedi mewn gofal brys ac argyfwng ymhellach, ac mae llawer o hyn yn gofyn am weithio gyda phartneriaid ar atebion system gyfan.
- Mabwysiadu camau gweithredu fel yr amlinellir yn yr Adolygiad Gofal Sylfaenol Brys a oedd yn asesu effeithiolrwydd Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys, gan ystyried yr hyn a ddysgwyd ar draws BIPBC a Chymru.
- Gweithredu'r Cynllun Gofal Brys ac Argyfwng Integredig (6 Nod): Parhau i weithio gyda chefnogaeth y rhaglen genedlaethol ar weithrediadau lleol i wneud gwahaniaeth cynaliadwy yn y tymor hir.



Canlyniad 5 – Cydnabod bod Prifysgol Betsi Cadwaladr yn sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun

Mae'n hanfodol er mwyn creu sefydliad effeithiol sy'n gallu rhoi newid hirdymor ar waith, bod sylw ar ddysgu a mecanweithiau sy'n cefnogi gwelliant yn cael ei wreiddio. Mae'r canlyniad hwn felly'n defnyddio elfennau a fydd yn galluogi'r sefydliad i nodi materion a meysydd i'w gwella'n gynharach a meithrin capasiti a gallu i wneud newidiadau ynddo'i hun heb ddibynnu'n drwm ar gymorth allanol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn benderfynol o ddysgu o'i brofiadau ac mae'n datblygu ffyrdd gwell o ddefnyddio'r holl adborth, gwybodaeth (data) sydd ar gael i wella'n barhaus – nawr ac yn y dyfodol.

Cyflawniadau hyd yma:

- Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i ddatblygu achos busnes i fuddsoddi mewn Cofnod Gofal Iechyd Electronig ar gyfer Gogledd Cymru. Byddai hyn yn golygu bod modd trawsnewid systemau gofal, gan gefnogi staff i gynnig gofal mwy diogel a mwy effeithiol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ynglŷn â symud yr achos hwn ymlaen i'r cam nesaf.
- Mae'r adnodd Trawsnewid a Gwella wedi'i alinio â meysydd ffocws allweddol ar y rheng flaen, gan roi cymorth ychwanegol i'r meysydd hynny sydd fwyaf mewn angen.
- Mae Fframwaith Sefydliad sy'n Dysgu yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r diwylliant, y system a'r broses ddysgu.
- Sefydlwyd Rhaglen Ymchwiliadau a Dysgu i adolygu'n ôl-weithredol safonau ac effeithiolrwydd ymchwiliadau sy'n ymwneud â gofal clinigol yn y sefydliad. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar ansawdd cynllunio gweithredu a'r dystiolaeth bod dysgu wedi'i wreiddio wedi digwydd.
- Rhoi hyfforddiant ac arweiniad ar ddefnyddio cynnyrch Gwybodaeth drwy gyfres o sesiynau i gefnogi gallu i ddod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan wybodaeth.
- Dechreuodd Cyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd brosiect ar drawsnewid gwasanaethau diabetes ledled Gogledd Cymru gan ddefnyddio egwyddorion iechyd y cyhoedd ym maes gofal iechyd.

Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn 2024/25:

- Datblygu storfa ddysgu ganolog a digidol a phrototeip system raeadru, yn seiliedig ar Office 365: Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ddatblygu fel dull o ddysgu o ddigwyddiadau, gan ddefnyddio setiau data cyson sy'n hwyluso dysgu ar y cyd, meincnodi a mesur cynnydd.

RHAN 5 – EDRYCH YMLAEN AT 2024-25

Ein Cynlluniau ar gyfer 2024/25

Dros y 12 mis nesaf, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio ochr yn ochr â phartneriaid a Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar sut gall sicrhau bod ei ddull gweithredu'n parhau. Mae'r Bwrdd am greu **sefydliad effeithiol**, gyda chynllun cadarn ar gyfer newid hirdymor sy'n seiliedig ar ansawdd er mwyn iddynt, fel sefydliad, sicrhau gwelliant gwirioneddol i ganlyniadau a phrofiadau poblogaeth Gogledd Cymru.

Mae'r gwaith paratoi ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 bron â chael ei gwblhau, gyda disgwyliad y bydd y **cynllun Mesurau Arbennig** yn cael ei ymgorffori â [Chynllun Tair Blynedd 2024-27 y Bwrdd Iechyd](#). O ystyried y bydd gorgyffwrdd sylweddol rhwng y gofynion gwella a amlinellir mewn Mesurau Arbennig a'r blaenoriaethau sy'n cael eu cynnwys yng nghynllun 2024-27, mae hyn yn caniatáu **dull cynllunio a goruchwyllo symlach a mwy effeithlon** yn y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol.

Roedd dull y Bwrdd Iechyd o ymdrin â Mesurau Arbennig yn dangos ffocws a chyflymder sylweddol a bydd yn cael ei ddatblygu er mwyn gallu cynllunio yn y tymor hirach. Sicrhau bod y meysydd ffocws penodol wedi'u gwreiddio'n llawn yn y Cynllun Tair Blynedd ac yn adlewyrchu'r sefyllfa fwy sefydlog y mae'r Bwrdd bellach ynnddi. Y prif ffocws fydd ar brosesau cynllunio 'busnes fel arfer', gan ymgorffori'r holl ddysgu i ddarparu monitro integredig, sicrwydd ac adrodd yn erbyn cynlluniau.

Mae'r ffocws dros y naw mis diwethaf wedi bod ar 'sefydlogi', gan wneud y newidiadau mwyaf sylweddol ac uniongyrchol sydd eu hangen ar ôl symud i Fesurau Arbennig i barhau i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gogledd Cymru.

Yn ystod 2024-2027, bydd y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar hyn i weithredu dull sy'n sicrhau dull o ddarparu gwasanaethau yng Ngogledd Cymru sy'n fwy 'safonol', gan wneud y newidiadau sydd eu hangen i roi'r Bwrdd Iechyd ar sylfaen 'cynaliadwy' ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau symud ymlaen mewn nifer o feysydd ac er bod llawer o heriau o hyd, mae ymrwymiad i gymryd y gwersi a ddysgwyd o'r prosesau a gyflwynwyd i sicrhau bod BIPBC yn sefydliad sy'n gallu cynllunio'n rhagweithiol, nodi risgiau a heriau, a rhoi camau gweithredu angenrheidiol ar waith i fynd i'r afael â nhw.

Bydd gwreiddio'r ymateb i Fesurau Arbennig yn y **Cynllun Tair Blynedd** yn galluogi'r sefydliad i symud drwy bob un o'r camau a amlinellir uchod a gwneud gwelliannau gwirioneddol a pharhaol i wasanaethau. Bydd gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Iechyd ar draws y system gyfan, ynghyd â chefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru, yn sicrhau bod y sefydliad yn cael ei sefydlu'n gynaliadwy ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

5 Amcan Strategol

Yn ystod 2023-24, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i symud ymlaen drwy ei amcanion yn erbyn y fframwaith Mesurau Arbennig. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, mae hyn wedi ymglyfuno o gwmpas pum prif faes lle'r oedd angen gwella fwyaf. Gan gydnabod yr angen i **flaenoriaethu gwelliannau** yn y meysydd a arweiniodd at Fesurau Arbennig, mae craidd cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-27 yn adeiladu ymhellach ar y **pum maes amcan** hynny:



Ffigur 6: Cynllun Tair Blynedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 2023-27, 5 Amcan Strategol, 2023.

Bydd llawer o'r blaenoriaethau'n cael eu cyflawni'n sylweddol neu'n llawn yn ystod y flwyddyn gyntaf, tra bydd blaenoriaethau eraill yn cymryd mwy o amser i'w rhoi ar waith dros y cyfnod o dair blynedd gan adeiladu ar y blaenoriaethau a roddwyd ar waith yn gynharach. Mae'r dilyniant hwn yn bwysig er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol yn llwyddiannus mewn ffordd gyflynol sy'n cydnabod cyd-ddibyniaeth blaenoriaethau.

Egwyddor Cynllunio

Bydd Egwyddorion Dylunio Sefydliadol yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddylunio a chysoni gweledigaeth strategol, nodau, galluoedd a phrosesau'r sefydliad. Drwy ddefnyddio egwyddorion cynllunio

gellir cael eglurder syml i wella effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, ansawdd ac arloesedd. Bydd y dull hwn hefyd yn symud y Bwrdd Iechyd yn raddol i gyfeiriad cyffredin, yn ogystal â rhoi sicrwydd o ran y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau llunio Egwyddorion Cynllunio ond mae rhagor o waith i'w wneud i ymgysylltu, trafod a mireinio'r rhain cyn eu cwblhau'n derfynol. Bydd yr Egwyddorion yn cyfrannu fel map i helpu i ganolbwyntio a llywio gweithgarwch gwella.

Arwain dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ansawdd

Bob dydd ar draws Gogledd Cymru, mae pobl yn cael gofal o ansawdd uchel. Fodd bynnag, nid yw'r gofal hwn bob amser yn bodloni'r safon y mae cleifion yn ei disgwyl na'i haeddu. Bydd datblygu **System Rheoli Ansawdd** newydd yn rhan allweddol o gynlluniau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau gwelliant cynaliadwy drwy ei wasanaethau. Bydd y system hon yn cefnogi ymrwymiad y sefydliad **i fod yn sefydliad sy'n dysgu, sy'n gwella ei hun ac sy'n cael ei arwain gan ddata**. Mae gwaith eisoes wedi cael ei wneud gydag arbenigwyr yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn ogystal â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Ngogledd Cymru, i ddechrau datblygu hyn. Drwy ddatblygu gwasanaethau'n effeithiol a monitro perfformiad, yn ogystal â chanlyniadau, yn barhaus pan fydd gofal yn cael ei ddarparu, bydd y system yn darparu sicrwydd a rheolaeth ansawdd amser real. Bydd y System Rheoli Ansawdd yn rhagweld lle mae angen gwella gwasanaeth er mwyn gallu darparu cymorth cyn i faterion sylweddol godi yn hytrach nag yn adweithiol pan fydd niwed eisoes wedi'i achosi.

Bydd yr adnodd System Rheoli Ansawdd yn cael ei ddefnyddio i ddechrau i gefnogi Meysydd Pryder Clinigol o fewn y fframwaith mesurau arbennig. Y ddau wasanaeth cyntaf i fabwysiadu'r dull hwn fydd gwasanaethau fasgwlar a gwasanaethau wroleg, dau wasanaeth sydd â materion ansawdd cydnabyddedig ac sydd ar wahanol gamau o'u teithiau datblygu.

Sefydliad sy'n Dysgu ac yn Gwella

Bydd ymchwilio'n gadarn i ddigwyddiadau arwyddocaol, ac yna sicrhau dysgu eang, yn lleihau nifer y digwyddiadau arwyddocaol a fydd yn codi yn y dyfodol. Mae lansiad diweddar y Polisi **Pryderon Integredig** yn allweddol i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni hyn. Mae'r dull integredig newydd hwn o reoli pryderon a lansiwyd ar 01 Medi 2024 yn darparu dull gweithredu mwy cydlynol o ran sut mae'r sefydliad yn rheoli ymatebion i ddigwyddiadau, cwynion ac adolygiadau o farwolaethau.



Mae'r polisi'n cyflwyno Hyb Pryderon rhithwir dyddiol, lle bydd gwasanaethau'n cwrdd i rannu gwarsi, dealltwriaeth a gwybodaeth am ymchwiliadau ynghyd ag adnoddau newydd i gefnogi staff sy'n ymwneud â'r broses ymchwilio sy'n dod â'r holl adnoddau sydd eu hangen at ei gilydd i helpu staff i weithio drwy'r camau a amlinellir yn y Polisi Pryderon Integredig.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu **Storfa Ddysgu** sy'n system rheoli gwybodaeth sy'n galluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gael gafael ar ddata a gwybodaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau diogelwch cleifion, eu rhannu a dysgu ohonynt. Mae'r system yn integreiddio data o wahanol ffynonellau ac yn cefnogi dysgu cydweithredol.

Prif amcan y Storfa Ddysgu yw **gwella diogelwch cleifion** drwy hwyluso **dysgu sefydliadol** o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac arferion gorau. Nod y system yw atal digwyddiadau niweidiol rhag digwydd eto, gwella ansawdd y gofal, a meithrin diwylliant o ddiogelwch ac arloesi. Cafodd y system ei chynllunio i ddiwallu anghenion a disgwyliadau gwahanol randdeiliaid, fel clinigwyr, rheolwyr, addysgwyr, ymchwilydd a rheoleiddwyr, sydd â rolau a chyfrifoldebau gwahanol mewn perthynas â diogelwch cleifion.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gymell gwelliant i ganlyniadau clinigol drwy ei weithgareddau Effeithiolrwydd Clinigol. Mae Archwiliadau Clinigol yn enghraifft dda o hyn. Mae archwiliadau clinigol yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i benderfynu a yw'r gofal a ddarperir yn cael ei ddarparu yn unol â safonau ac arferion gorau. Yn ystod 2023-24, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ymgysylltu â 27 o'r 38 o brosiectau o'r **Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Archwiliadau Clinigol a Chanlyniadau i Gleifion** (NCAPOP) sy'n allweddol er mwyn i'r Bwrdd Iechyd feincnodi ei gydymffurfiaeth a'i berfformiad, gan ddefnyddio'r canfyddiadau i nodi'r gwelliannau angenrheidiol ar gyfer cleifion. Roedd canlyniad y rhaglen yn nodi bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn 48% ar neu'n uwch na'r meincnod mewn 75% neu fwy o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA).

Mae **Adroddiad Blynyddol Archwilio Clinigol y Byrddau Iechyd 2023-24** yn rhoi trosolwg o weithgarwch archwilio clinigol ar draws y sefydliad ac yn cadarnhau'r argymhellion a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2024-25. Swyddogaeth y Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol, sef y grŵp sy'n goruchwylio llywodraethiant clinigol ar gyfer effeithiolrwydd clinigol, yw darparu sicrwydd mewn perthynas â threfniadau archwilio clinigol, adolygiadau marwoldeb a chanllawiau NICE a bydd yn goruchwylio'r blaenoriaethau yn yr adroddiad.

Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen **Ymchwil, Datblygu ac Arloesi** sefydledig sy'n parhau i dyfu. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad academiaidd staff presennol, cadw staff newydd sy'n canolbwyntio ar ymchwil, ac yn cynnig cyfleoedd i drigolion Gogledd Cymru gael mynediad at ymchwil ac opsiynau triniaethau arloesol o fewn eu gofal.

Mae gweithgareddau sylweddol ar y gweill, gan weithio gyda phartneriaid academiaidd, masnachol a thrydydd sector i **arwain a darparu ymchwil o ansawdd uchel** gan gynnwys Cyfleuster Ymchwil Glinigol Gogledd Cymru (CRF), sy'n darparu gofod lle gellir cynnal treialon clinigol cyfnod cynnar mewn ffordd ddiogel a rheoledig sydd hyd yma wedi cael ei ddyfynnu dros 700 o weithiau mewn cyfnodolion effaith uchel. Mae gan y Bwrdd Iechyd 316 o astudiaethau ymchwil sy'n agored i recriwtio; neu'n dilyn hynny. O'r rhain, mae 208 yn astudiaethau portffolio, ac mae 108 yn astudiaethau nad ydynt yn rhan o bortffolio. Mae gan bob astudiaeth Brif Ymchwilydd (PI) penodol o'r Bwrdd Iechyd; ac fe wnaeth Prif Ymchwilydd y Bwrdd Iechyd arwain 41 o'r rhain.

RHAN 6 - CYFATHREBU, YMGYSYLLTU A PHROFIAD CLEIFION

Mae **gwrando** ar **brofiadau** dinasyddion Gogledd Cymru a'u deall yn hanfodol er mwyn gwella'r ffordd mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn darparu gofal a gwasanaethau. Mae casglu'r **wybodaeth hon** yn galluogi'r sefydliad i ddeall y materion sy'n bwysig i'n poblogaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn benderfynol o wneud gwelliannau parhaus ac mae ei staff a dinasyddion Gogledd Cymru yn dod at ei gilydd yn fwy rheolaidd i ddatrys problemau parhaus.

Mae gwella hyder y cyhoedd yn faes arall y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i'w gyflawni. Mae'n gweithio'n galed i gynyddu amlygrwydd ac i gryfhau ei gysylltiadau â'i boblogaeth a'i randdeiliaid i adfer hyder bod y Bwrdd Iechyd yn gwrando ar gymunedau wrth osod ei flaenoriaethau, ac mae gwneud penderfyniadau allweddol yn hanfodol i helpu i greu amgylchedd ar gyfer trafodaeth a chyfranogiad aeddfed. Mae hyn yn cynnwys egluro pam mae'n gwneud rhai penderfyniadau a bod yn agored gyda phobl sydd eisiau cwestiynu neu anghytuno â'r penderfyniadau hynny.

Drwy wneud hyn, bydd y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu rhywfaint at hyrwyddo ymddiriedaeth, atebolrwydd a chydaddoldeb, gan arwain at fwy o ymgysylltu â'r cyhoedd a gwella ei enw da.

Ymagwedd y Bwrdd Iechyd o ran cyfathrebu, ymgysylltu a phrofiad cleifion

Ymarferion Ymgysylltu

Gan ddechrau ym mis Ionawr 2024, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cyflwyno **rhaglen ymgysylltu**, gan gynnal digwyddiadau ar draws siroedd gyda'r nod o:

- **Gynyddu amlygrwydd** Aelodau'r Bwrdd, y Swyddogion Gweithredol a'r uwch arweinwyr i wrando a chysylltu â'r cyhoedd,
- **Darparu cyfleoedd i glywed gan gymunedau am yr hyn maent yn teimlo** sy'n gweithio'n dda ym maes gofal iechyd, beth allai fod yn well a beth ddylai'r Bwrdd Iechyd ei flaenoriaethu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.
- **Trafod a hyrwyddo** arferion da ac enghreifftiau o sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i bryderon iechyd lleol a;
- **Bod yn greadigol ac yn arloesol** yn null y Bwrdd Iechyd o ymgysylltu a chynnwys y cyhoedd.

Fformat y digwyddiadau hyn yw creu sesiwn gynhwysol, gan ganolbwyntio ar bynciau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol sydd o ddiddordeb. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle i'r cyhoedd gwrdd ac ymgysylltu ag Aelodau'r Bwrdd ac arweinwyr Byrddau Iechyd drwy sgysiau anffurfiol. Nod y digwyddiadau ymgysylltu yw bod yn rhyngweithiol ac yn bleserus.

Digwyddiadau Cnoi Cil ar Iechyd

Mae'r Digwyddiadau Cnoi Cil ar Iechyd yn rhan o agenda [Cymru Iachach](#) Llywodraeth Cymru i ddod â gofal yn nes at adref, lle gall y Bwrdd Iechyd gydweithio â busnesau a sefydliadau i ddod â chyngor ac arweiniad ar iechyd yn uniongyrchol i drigolion Gogledd Cymru yn eu gweithle a hefyd allan yn y Gymuned.

Mae'r sesiynau Cnoi Cil ar Iechyd yn gydweithrediad rhwng Tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Bwrdd Iechyd, ei wasanaethau, a'i sefydliadau partner, sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella mynediad at wybodaeth a hyrwyddo lechyd a Llesiant ataliol.

Mae sesiynau Cnoi Cil ar Iechyd yn darparu cymorth a gwybodaeth gan gynnwys:

- Gwiriadau pwysedd gwaed
- Iechyd meddwl a Llesiant
- Sgrinio iechyd
- Rhoi'r Gorau i Ysmygu
- Camddefnyddio alcohol a sylweddau
- Gwybodaeth i ofalwyr
- Ffordd o fyw actif
- Iechyd yr Afu
- Bwyta'n iach



Ffigur 7: Cnoi Cil ar Iechyd, BIPBC, 2023.

Grŵp Ymgysylltu BIPBC

Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn uwchgyfeirio statws ymyrraeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fesurau arbennig ar unwaith. Mae Fframwaith Gweithredu Mesurau Arbennig 2023 yn nodi wyth maes sy'n peri pryder, ac mae un ohonynt yn sôn yn benodol am brofiad cleifion yn ei gysylltiadau â llywodraethu clinigol a diogelwch.

Ar hyn o bryd i'r Bwrdd Iechyd, mae ymgysylltu ystyrion, perthnasoedd, partneriaethau a chyfathrebu cryf wrth galon meithrin ymddiriedaeth a hyder yn ansawdd y gofal a'r gwasanaethau, ac maent yn rhan annatod o daith y Bwrdd Iechyd o ran gwella a datblygu gofal i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Er mwyn darparu sefydliad **cynaliadwy, ymatebol, sy'n dysgu ac yn gwella**, rhaid gwreiddio ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol ac ystyrion drwy ei ymarfer, y dull strategol, y ffordd mae'n cyflawni gwelliannau a thrawsnewid, a sut mae'n cynllunio dyluniad gwasanaeth.

Er mwyn gwella a datblygu ymgysylltiad, cyfathrebu a phrofiadau cleifion, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ffurfio Grŵp Ymgysylltu BIPBC a fydd yn ymgymryd yn benodol â'r gwaith sydd ei angen i gyflawni amcanion y gwaith mesurau arbennig. Gwneir hyn drwy ddau gam:

Cam 1 - Adolygiad o ymgysylltu mewnol

Pwrpas yr adolygiad yw dysgu mwy am yr amrywiaeth o ymgysylltu a wneir gan wasanaethau'r Bwrdd Iechyd, yr effaith y mae eu hymgysylltiad wedi'i chael a pha gymorth sydd ei angen i ddarparu ymgysylltu effeithiol ac ystyrion yn y dyfodol.

Cam 2 - Ymgysylltu allanol

Darparu rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr gyda phartneriaid, y cyhoedd a chleifion i helpu i lywio a siapio dull gwell y Bwrdd Iechyd o ymgysylltu. Bydd cwmpas y cam ymgysylltu yn canolbwyntio ar ddeall sut:

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwrando ar ac yn darparu cyfleoedd i bobl ddylanwadu ac ymwneud â'r gwaith o lunio gwasanaethau, blaenoriaethau a chynlluniau
- Mae ymgysylltu a mewnwleidiad yn cefnogi dysgu ac arfer gorau

- Mae ymgysylltu a phrofiad cleifion wedi'i wreiddio'n eang ar draws y Bwrdd Iechyd i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau, diogelwch ac ansawdd
- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ymgysylltu yn cael eu casglu, eu triogli a'u dadansoddi'n systematig
- Mae themâu a materion yn cael eu nodi ac yn cefnogi'r gwaith o siapio gwelliannau a chynlluniau blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd.

Er ei bod yn bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu dulliau ystyrlon a chynhwysol wrth ymgysylltu, fel ei fod yn dilyn yr [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru](#), mae'r rhaglen ymgysylltu hon yn canolbwyntio'n bennaf ar wella'r ffordd mae'n gwrando ac yn dysgu o ymgysylltu, gwreiddio pwysigrwydd ymgysylltu ar draws y sefydliad a dadansoddi adborth a dealltwriaeth yn fwy effeithiol.

Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu (PEC)



Ffigur 8: Tîm Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu, BIPBC, 2023.

Cafodd y swyddogaeth PEC ei chreu ddiwedd 2021. Mae'n **dod ag ymgysylltu a chyfathrebu ynghyd**, ac mae wedi sefydlu **swyddogaeth materion cyhoeddus a phartneriaeth** newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn edrych ar gyfleoedd i gryfhau rhai gweithgareddau a phartneriaethau er mwyn i'r swyddogaeth fod mewn gwell sefyllfa i sicrhau ymgysylltu ystyrlon drwy:

- Ail-osod uwch dîm arwain y PEC a chanolbwyntio mwy ar feithrin cysylltiadau cryfach ar draws y swyddogaethau
- Ail-lunio ei ddull gweithredu fel bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'n gilydd mewn ffordd wedi'i chynllunio a'i chydlynu
- Ailffocysu i fod yn fwy o swyddogaeth gwrando
- Ail-ennill ei naratif sefydliadol

Rhennir gweithgareddau craidd y swyddogaeth yn bedwar maes:

- Ymgysylltu Strategol
- Ymgysylltu Digidol
- Perthnasoedd â Rhanddeiliaid
- Cyfathrebiadau Strategol

Gyda'i gilydd, mae'r swyddogaeth yn gwrando ar gleifion, gofalwyr, teuluoedd, dinasyddion, cymunedau a phartneriaid. Mae'n triogli themâu ac yn galluogi'r sefydliad i weithredu ar eu hadborth a chael deialog a pherthynas barhaus â phobl Gogledd Cymru.

Adolygiad Annibynnol: Gwrando ar ddinasyddion, cleifion, staff a phartneriaid.

Yn ystod 2023, cynhaliodd Cath Broderick, sy'n ymgynghorydd annibynnol ym maes ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, cyfathrebu, ymgynghori a hwyluso, adolygiad fel rhan o Fframwaith Mesurau Arbennig y Bwrdd Iechyd sy'n cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu ystyrion, perthnasoedd cryf, partneriaethau a chyfathrebu.

Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar **rôl ac effeithiolrwydd ymgysylltu a chyfranogiad yn y Bwrdd Iechyd** ac, yn dilyn yr adolygiad, mae amrywiaeth o argymhellion wedi cael eu gwneud i'r Bwrdd Iechyd, lle mae diweddariadau ar gynnydd yn cael eu darparu'n rheolaidd i'r Bwrdd. Mae canlyniadau'r adolygiad yn cynnwys:

- Yr angen i greu system gydgysylltiedig a chynaliadwy i wrando ar gleifion, gofalmwyr, teuluoedd, dinasyddion, cymunedau, staff a phartneriaid.
- Meithrin gwell partneriaethau strategol a sgysiau gyda'n cymunedau.
- Datblygu adnodd a chronfa ddata ganolog o'r holl weithgarwch a methodoleg ymgysylltu, profiad a dealltwriaeth.
- Asesu effeithiolrwydd ac effaith profiad cleifion, ymgysylltu a chydgyhyrchu, ar ansawdd a diogelwch gofal, gan gynnwys gwasanaethau ar draws y sefydliad a gwasanaethau arbenigol.
- Cael un fframwaith gweithredol ar gyfer profiad, ymgysylltiad a mewnwleidiad cydlynol.
- Adeiladu ar gryfderau'r tîm PEC, gyda chyfleoedd i weithio ar y cyd ar draws timau.
- Adolygu a datblygu rôl y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS).
- Sicrhau bod gan y Bwrdd wybodaeth am themâu sy'n dod i'r amlwg, ffactorau risg a materion diogelwch cleifion.
- Adolygu'r seilwaith ar gyfer lleisiau lleyg yn null craffu'r Bwrdd Iechyd.

Mae **Grŵp Ymgysylltu BIPBC** yn arwain y gwaith hwn o **gyd-gynhyrchu gyda Llais Cymru**, sef y corff annibynnol cenedlaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Grŵp Ymgysylltu BIPBC yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan Cath Broderick, i'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau.

Fframwaith Profiad Pobl GIG Cymru (2024)

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn paratoi ar gyfer cyflwyno Fframwaith Profiad Pobl GIG Cymru (2024), i ddisodli'r Fframwaith ar gyfer Sicrhau Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth (2018) presennol.

Gellir disgrifio '**profiad pobl**' fel y ffordd mae pobl yn teimlo wrth ddefnyddio unrhyw wasanaethau a rhaglenni a gynigir gan y GIG yng Nghymru. Boed mewn ward ysbyty, apwyntiad claf allanol, cymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio cenedlaethol, ymgysylltu â gwasanaethau gofal sylfaenol (fel meddyg teulu, Optometrydd, Fferyllydd, Deintydd), rhyngweithio ag ymarferwyr hybu iechyd, neu fynychu unrhyw ddigwyddiad a gynhelir gan sefydliad GIG Cymru.

Mae Fframwaith Profiad y Bobl yn alinio â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Dyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd), Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Gwneud Iawn) (Cymru) 2011, Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010, a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. **Mae gwrando a dysgu o brofiadau pobl yn elfen annatod o'r rheoliadau hyn.**

Bydd y Fframwaith Profiad Pobl yn cyflwyno matrices hunanasesu aeddfedrwydd, gan rymuso Byrddau Iechyd i werthuso eu sefyllfa bresennol ac i ddatblygu cynllun gwella uchelgeisiol i wella profiad cleifion, gan ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Cwynion
- Canmoliaeth
- Hanesion y cleifion
- Digwyddiadau
- Arolygon profiad pobl cenedlaethol a lleol
- Profiadau Pobl (Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion / Arolygon Profiad y Pobl)
- Profiadau staff.

Mae **triogli data adborth profiadau** ochr yn ochr â metrigau eraill yn arwydd o sefydliad sydd wedi ymrwymo i **ansawdd**. Bydd y fframwaith yn cwmpasu'r holl wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau GIG Cymru, gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynir. Fel rhan o'r fframwaith newydd, rhaid i ddangosyddion ansawdd a phrofiad gael eu hintegreiddio i'r holl drefniadau gwasanaethau a gomisiynir a rhaid i'r data a gesglir gael ei ddefnyddio fel rhan o fonitro a chydymffurfio â chontractau.

Yn ogystal, bydd set ddiwygiedig o gwestiynau cenedlaethol ar y Mesur Profiad a Adroddir gan Gleifion ac arolygon cenedlaethol yn cael eu lansio. Fel Bwrdd Iechyd, bydd dyletswydd arno i sicrhau:

- Bod pawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r sefydliad yn gallu rhoi adborth dienw yn gyflym ac yn hawdd pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.
- Dylid defnyddio adborth pobl i ddatlu ac adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, ac i nodi meysydd lle gellid gwneud gwelliannau.
- Dylai adborth ar brofiad pobl fod ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd mewn fformat hygyrch.
- Dylai gwybodaeth ddangos bod pobl yn gwrando ar adborth ac yn gweithredu arno, e.e. 'Fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni'.

Mae straeon cleifion yn helpu'r Bwrdd Iechyd i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a sut gallwn wella gofal a phrofiad cleifion. Mae gwrando ar straeon cleifion, boed yn dda neu'n ddrwg, yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i nodi ffyrdd y gall barhau i wella gwasanaethau i gleifion, teuluoedd a gofalwyr. Mae'r canlynol yn giplun o straeon cleifion a rannwyd i'w dysgu yn ystod 2023-24:

Teitl Stori'r Claf	Trosolwg o'r stori	Negeseuon Allweddol	Dysgu
Pwysigrwydd cyfathrebu mewn llawdriniaeth 'Garlam'	Mae'r storiwr yn disgrifio taith deg mis a hanner yn Ysbyty Maelor Wrecsam, gan gynnwys tri asesiad cyn llawdriniaeth, dwy lawdriniaeth wedi'u canslo ac effaith gyffredinol y diffyg cyfathrebu rhwng arbenigeddau lle mae gan gleifion fwy nag un cyflwr, ac effaith hyn ar gleifion sydd angen llawdriniaeth 'garlam'.	Mae'r storiwr yn tynnu sylw at effaith diffyg cyfathrebu a diffyg cydlynw rhwng arbenigeddau pan fo gan gleifion nifer o gyflyrau sylfaenol rhag cael llawdriniaeth.	Mae fferylliaeth wedi gwella cyfathrebu drwy ddatblygu'r defnydd o broses sgrinio iechyd i ganfod cleifion sydd ag anghenion meddyginiaeth cymhleth yn llawer cynharach yn y broses drwy ddatblygu Holiadur Sgrinio Iechyd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr apwyntiad Clinig Asesu Cyn Llawdriniaeth (POAC) yn

			<p>cael ei drefnu'n ddigon buan cyn dyddiad y llawdriniaeth.</p> <p>Creodd Fferylliaeth restr wirio gyfathrebu safonol o'r camau gweithredu sy'n ofynnol gan Fferyllwyr POAC. Gellir eu rhannu â'r holl dimau priodol sy'n ymwneud â'r claf er mwyn helpu i atal rhoi dyddiadau amhriodol i gleifion ar gyfer archwiliadau cyn-llawdriniaeth a llawdriniaethau ac wedyn eu canslo.</p>
Syndrom Cauda Equina ac Addysg Asgwrn Cefn	Mae'r storiwr yn disgrifio ei phrofiad o Syndrom Cauda Equina, gan ddisgrifio effaith gorfforol ac emosiynol y cyflwr.	Mae'r storiwr yn disgrifio diffyg gwybodaeth ymysg staff am Syndrom Cauda Equina, a'r diffyg cefnogaeth sydd ar gael	<p>Datblygu Llwybr Syndrom Cauda Equina newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.</p> <p>Cynhaliwyd Diwrnod Addysg Asgwrn Cefn penodol ar gyfer Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain ddydd Mawrth 21 Tachwedd 2023, gyda Syndrom Cauda Equina yn bwnc allweddol. Cafodd stori'r claf ei chwarae i agor y diwrnod i ddarparu dull dysgu sy'n 'canolbwyntio ar y claf'.</p>
Cannwla yn y Ffreutur	Mae'r storiwr yn rhannu ei brofiad o staff y ffreutur yn gwrthod gweini bwyd a diod iddo yn ardal y ffreutur yn unol â'r 'polisi' ac oherwydd argymhellion atal heintiau.	Mae'r storiwr yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael defnyddio gwasanaethau ffreutur a chael gweld rhywbeth gwahanol i ffwrdd o'r ward.	Datblygwyd canllawiau ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gael gafael ar gyfleusterau ffreutur ar draws Betsi Cadwaladr, i sicrhau bod pob claf yn gallu defnyddio cyfleusterau ffreutur mewn ffordd ddiogel a theg.
Taith y Claf drwy Wasanaethau Cancer	Mae'r stori hon yn dilyn taith driniaeth pum mlynedd y storiwr drwy Wasanaethau Cancer o ddiagnosis sylfaenol o ganser y fron, diagnosis cancer eilaidd a gofal lliniarol parhaus.	<p>Mae'r storiwr yn disgrifio ei rhwystredigaeth nad oedd yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arni drwy gydol ei thaith.</p> <p>Mae'r storiwr yn disgrifio'r rhwystredigaeth</p>	<p>Datblygwyd Cynllun Gweithredu Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Person gan yr Is-grŵp Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Claf yn y Gwasanaethau Cancer i wella profiad cleifion o ofal a thriniaeth cancer.</p> <p>Mae'r stori hon am glaf yn atgyfnerthu'r angen am</p>

		ynghylch y ffordd y cydlynwyd ei gofal.	<p>Wasanaeth Canser Metastatig y Fron / Colon a'r Rhefr sydd newydd ddatblygu. Mae cleifion â chanser y fron na ellir ei wella bellach yn elwa ar gefnogaeth Nyrsys Arbenigol Clinigol Metastatig (CNS).</p> <p>Mae Hwylusydd Cynnwys Defnyddwyr o fewn Gwasanaethau Canser bellach wedi cael ei recriwtio i weithio gyda Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru ac i wrando a deall beth yw'r materion pwysicaf i gleifion.</p>
--	--	---	--

Gwella ymagwedd y Byrddau Iechyd tuag at Adborth Amser Real

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cafodd y Bwrdd Iechyd **45,152** o ymatebion i arolwg Adborth Amser Real Cymru Gyfan drwy system adborth Civica.

At ei gilydd, roedd **79.78%** o'r ymatebwyr yn **fodlon â'u profiad o gael mynediad at wasanaethau'r Bwrdd Iechyd**.

Mae canfyddiadau allweddol o adborth yr arolwg amser real yn cynnwys:

- Roedd 80% o'r ymatebwyr bob amser yn cael yr holl wybodaeth oedd ei hangen
- Roedd 83.30% o'r ymatebwyr bob amser yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arny'n nhw
- Roedd 69.83% o'r ymatebwyr yn cael cymorth pan oedd angen
- Roedd 80.91% o'r ymatebwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am ofal bob amser
- Roedd 80.56% o'r ymatebwyr yn teimlo bod staff bob amser wedi rhoi o'u hamser i ddeall beth oedd yn bwysig iddyn nhw fel unigolyn ac wedi ystyried hyn wrth gynllunio a darparu eu gofal

I baratoi ar gyfer lansio Fframwaith Profiad Pobl GIG Cymru, a gweithredu set genedlaethol newydd o **Fesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion (PREMS)**, sef holiaduron sy'n mesur canfyddiadau cleifion o'u profiad wrth dderbyn gofal, mae gwaith yn cael ei wneud ar draws y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod pob ward, gwasanaeth ac adran yn cael eu mapio i System Adborth Civica.

Bydd y Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn adolygu ei ofynion hygyrchedd i ganiatáu i bobl a chymunedau adael eu hadborth ar brofiad ar sail **'bob amser'**, gan sicrhau bod cyfleoedd i bobl roi adborth ac yn eu dewis iaith gyntaf, e.e. Iaith Arwyddion Prydain (BSL), a thrwy ddulliau eraill fel posterï cod QR mewn mannau aros, ciosgau, SMS, a chyfryngau cymdeithasol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Atodiad A - Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Gonestrwydd a Gweithio i Wella

2023 - 2024

ATODIAD A – ADRODDIAD BLYNYDDOL DYLETSSWYDD GONESTRWYDD A GWEITHIO I WELLA 2023-2024

Dyletswydd Gonestrwydd

Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd, yn yr un modd â'r Ddyletswydd Ansawdd, wedi cael ei chyflwyno drwy **Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020** a daeth i rym ym mis Ebrill 2023. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG yng Nghymru fod yn **agored ac yn onest** am y gofal a'r driniaeth y mae cleifion yn eu cael.

Beth ydy ystyr hyn?

Hyd yn oed pan fydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud ei orau glas i atal niwed, gall pobl ddiodeff niwed. Dyna pam mae'r ddyletswydd gonestrwydd ar waith. Os yw'r gofal a ddarperir wedi achosi niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth i glaf, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol y sefydliadau ddweud wrth eu cleifion neu rywun sy'n gweithredu ar eu rhan bod niwed wedi cael ei achosi.

Trwy fod yn agored ac yn onest, bydd yn rhoi hyder ac ymddiriedaeth i bobl yn y gofal a'r driniaeth a gawsant gan y Bwrdd Iechyd.

Beth a olygir wrth niwed cymedrol neu ddifrifol?

- **Niwed cymedrol** yw pan fydd y driniaeth gan y GIG y mae'r claf wedi'i chael wedi achosi neu wedi cyfrannu at achosi niwed iddo, gan arwain at driniaeth bellach. Ar y cam hwn, gall y niwed fod yn ddifrifol, ond nid yn barhaol. Er enghraifft, *mae claf yn cael meddyginiaeth y mae ganddo alergedd iddi, er ei bod wedi'i hysgrifennu yn ei nodiadau fel alergedd. Mae'r claf yn cael adwaith oherwydd y feddyginiaeth. Mae angen i'r claf aros yn yr ysbyty am 4 diwrnod neu fwy cyn iddynt wella.*
- Mae **niwed difrifol** yn niwed sydd wedi achosi neu wedi cyfrannu at y claf yn diodeff anabledd parhaol neu golli gweithrediad. Er enghraifft, *mae claf yn cael meddyginiaeth y mae ganddo alergedd iddi, er ei bod wedi'i hysgrifennu yn ei nodiadau fel alergedd. Gall hyn arwain at niwed i'r ymennydd neu niwed parhaol arall i organau.*
- **Marwolaeth** yw pan fydd claf yn marw, ac fe achoswyd neu y cyfrannwyd ato gan ei ofal a'i driniaeth yn y GIG. Er enghraifft, *mae claf yn cael meddyginiaeth y mae ganddo alergedd iddi, er ei bod wedi'i hysgrifennu yn ei nodiadau fel alergedd. Mae hyn yn arwain at farwolaeth y claf.*



Ffigur 9: Dyletswydd Gonestrwydd, AaGIC, 2023.

Agwedd y Bwrdd Iechyd at y Ddyletswydd Gonestrwydd

Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma?

Mae gan y Bwrdd Iechyd dudalen SharePoint dyletswydd gonestrwydd benodol ar ein mewnwrwyd sy'n darparu llw o ddeunyddiau hyfforddi sydd wedi cael eu cynhyrchu'n lleol ac yn genedlaethol, ynghyd â mynediad at dempledi a chanllawiau cymorth a fideos i helpu gwasanaethau i weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd. Cynigiwyd cymorth ychwanegol gan dimau llywodraethu lleol yn y Bwrdd Iechyd ac aelodau o'r Tîm Ansawdd Corfforaethol i helpu gydag ymholiadau a rhwystrau. Cynhaliwyd gweithdai a chyflwyniadau gyda gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn.

Beth sydd wedi herio'r Bwrdd Iechyd?


Trwy fisoedd cynnar y gweithredu, roedd y materion a gododd yn cynnwys dilysu difrifoldeb digwyddiadau a sbardunodd y ddyletswydd gonestrwydd, a sefydlu systemau a phrosesau cadarn i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n cael eu gwreiddio. Mae'r system adrodd, Datix Cymru, sef y system lle mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei chofnodi, wedi cael rhywfaint o waith uwchraddio ar ôl nodi meysydd i'w gwella.

SUT GWNAETH Y BWRDD IECHYD BERFFORMIO O RAN Y DDYLETSWYDD GONESTRWYDD YN YSTOD 2023-24

Lle mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei thanio yn ystod 2023-24


Yn ystod y flwyddyn adrodd 2023-24, mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi dod i rym mewn perthynas â **darparu gofal iechyd** gan y Bwrdd Iechyd. Cafodd y ddyletswydd ei thanio ar 761 o achlysuron (ac eithrio gofal sylfaenol, sy'n cael sylw yn hwyrach yn yr adran hon).

Mae **Tabl 1** isod yn dangos sawl gwaith y cafodd y ddyletswydd gonestrwydd ei thanio bob mis. Y nifer o weithiau, ar gyfartaledd, y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei thanio bob mis = 63.41.



*Tabl 1:
Digwyddiadau, fesul
mis, y cafodd y
ddyletswydd*

Mae **Tabl 2** isod yn dangos cyfran y digwyddiadau yn ôl lefel y niwed a ystyriwyd ar ôl yr adolygiad cychwynnol.



Tabl 2: Lefel y niwed a ystyriwyd ar ôl asesiad niwed interim gan reolwyr (o'r rhai a daniodd y Ddyletswydd Gonestrwydd), BIPBC.

Mae'n amlwg bod y gyfran fwyaf o ddigwyddiadau sydd wedi tanio'r ddyletswydd gonestrwydd yn **dilyn asesiad niwed interim rheolwyr**, yn perthyn i'r categori cymedrol.

Yn hanesyddol, byddai difrifoldeb cymedrol wedi cael ei ddewis pan oedd yr adolygydd yn ansicr ynghylch difrifoldeb, neu'n teimlo bod y digwyddiad yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau difrifoldeb cymedrol, er nad oedd claf yn dod i unrhyw niwed mewn gwirionedd. Nid yw hwn yn bolisi gan y Bwrdd Iechyd. Mae'n gamddealltwriaeth o'r goblygiadau o ran y Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn arwydd clir o'r angen am hyfforddiant i gysoni dyrannu niwed difrifol yn unol â chanllawiau cenedlaethol ar ddiffiniadau.

O ganlyniad, credir bod nifer y digwyddiadau sy'n cael eu categorio'n rhai cymedrol ar ôl yr adolygiad cychwynnol yn uwch nag ydyw mewn gwirionedd, ac mae angen cymorth ar wasanaethau i ddeall pwysigrwydd asesu'r niwed yn gywir, yn unol â'r diffiniad o gymedrol fel y nodir yn y polisi.

Mae deddfwriaeth y Ddyletswydd Gonestrwydd yn mynnu bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd, ar ôl ei thanio, roi gwybod i'r claf / perthynas y gallai niwed fod wedi cael ei achosi drwy hysbysiad "wyneb yn wyneb", a'i ddilyn gan hysbysiad ysgrifenedig. Dylid rhoi gwybod i'r claf / perthynas hefyd am ganlyniad unrhyw ymchwiliad, oni bai ei fod yn nodi nad yw'n dymuno cael gwybod.

Mae system rheoli pryderon Datix Cymru yn cael ei defnyddio gan y Bwrdd Iechyd i gofnodi pan fydd yr hysbysiadau "wyneb yn wyneb" a'r hysbysiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau a phan fydd unrhyw ymateb terfynol i ymchwiliad yn cael ei rannu â'r claf / perthynas.

O'r **761** o achlysuron pan gafodd y Ddyletswydd Gonestrwydd ei thanio, mae **643 o gofnodion wedi cael eu cau ac, o'r cofnodion digwyddiadau sydd wedi'u cau:**

- Cofnodwyd 424 o hysbysiadau "wyneb yn wyneb" fel rhai sydd wedi'u cwblhau **(66%)**
- Cofnodwyd 167 o hysbysiadau ysgrifenedig rhai wedi'u cwblhau **(26%)**
- Anfonwyd 63 o ymatebion terfynol **(9%)**

(Mae'n bosibl bod y camau gweithredu sy'n ofynnol gan y ddyletswydd wedi'u cwblhau mewn achosion ychwanegol ond heb eu cofnodi ar system Datix Cymru). Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod y sefyllfa hon yn llawer is na'r hyn sy'n dderbyniol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r broses a darparu hyfforddiant.

Ar ben hynny, mae gwaith dilysu parhaus gan y Tîm Diogelwch Cleifion wedi nodi, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24, nad yw nifer o ddigwyddiadau yr adroddwyd fel rhai cymedrol neu'n uwch (n=623), wedi bod yn destun adolygiad rheoli cychwynnol eto. Pe bai'r adolygiad rheoli wedi'i gwblhau, a phe bai'r asesiad o niwed wedi aros yn gymedrol neu'n uwch, byddai cyfran o'r nifer hwn hefyd wedi tanio'r ddyletswydd gonestrwydd. Mae'r mater hwn wedi cael ei uwchgyfeirio drwy gyfarfod y Grŵp Ansawdd a Diogelwch.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod defnyddwyr y system wedi dod o hyd i ffyrdd o osgoi rhannau penodol o'r ffurflen ymchwilio yn Datix Cymru ac nad yw'r broses briodol yn cael ei dilyn. Mae hyn yn fwyaf tebygol oherwydd blaenoriaethau sy'n gwrthdaro o ran staff yn gorfod defnyddio'r system a'r meysydd gorfodol cynyddol y mae angen eu llenwi er mwyn cau digwyddiad a'r amser a gymerir i gwblhau'r meysydd hynny. Ers diweddarau Datix i Ffurflen 4A ddechrau mis Ebrill, nid yw'r datrysiad hwn gan staff yn bosibl mwyach ac nid yw staff yn gallu cau digwyddiadau heb gwblhau'r adolygiad rheoli. Ddwy flynedd ar ôl iddi gael ei chyflwyno, bydd arolwg diweddar o ddefnyddwyr system Datix Cymru yn cael ei rhannu â thîm OFWCMS maes o law. Byddai'r Bwrdd Iechyd yn ddiolchgar am adolygiad llawn o adran ffactorau cyfrannol Swydd Efrog

ar Datix i sicrhau proses haws / cyflymach ar gyfer nodi gwersi a chau digwyddiadau ar ôl hynny. Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall y gallai trafodaethau cychwynnol fod wedi bod am hyn yn genedlaethol.

Yr amgylchiadau pan ddaeth y ddyletswydd i rym.

Y **3 phrif ddsbarthiad o ddigwyddiadau** lle cafodd y ddyletswydd gonestrwydd ei thanio yw:

- **Niwed oherwydd pwyso / niwed oherwydd lleithder** (n=264)
- **Damwain / anaf fel cwmpo** (n=129)
- **Triniaeth, gweithdrefn** (n=58)

Mae nifer y **briwiau pwyso** lle mae'r ddyletswydd wedi'i thanio yn cyfrif am **35% o'r cyfanswm**. Mae'n werth nodi bod y Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei sbarduno lle **gallai** niwed fod wedi cael ei achosi a gallai ymchwiliad pellach yn yr achosion hyn arwain at gasgliad nad oedd modd osgoi niwed.

Camau mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

Mae nifer o fentrau gwella yn cael eu cynnal ar draws y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r prif themâu ar gyfer digwyddiadau a restrir uchod, gyda gwaith gwella penodol ar waith, gan adrodd i grwpiau strategol allweddol fel **Grŵp Cwmpadau Strategol** a **Grŵp Briwiau Pwyso Gofal Iechyd Strategol (HAPU)** y Bwrdd Iechyd, lle mae rhannu arferion da a rhybuddion diogelwch cleifion yn digwydd i helpu i driongli gwybodaeth diogelwch cleifion i lywio dysgu allweddol a gwelliannau.

Mae adran Gweithio i Wella yr adroddiad hwn yn rhoi manylion am y gwaith gwella sy'n cael ei wneud ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn lleihau niwed i gleifion, yn enwedig o ran briwiau pwyso a chwmpadau, sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o ddigwyddiadau sy'n achosi niwed cymedrol neu uwch i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

SUT GWNAETH Y CONTRACTWYR GOFAL SYLFAENOL BERFFORMIO O RAN Y DDYLETSWYDD GONESTRWYDD YN YSTOD 2023-24

Paratoi Adroddiadau Dyletswydd Gonestrwydd y Darparwr Gofal Sylfaenol

O fis Ebrill 2023 ymlaen, rhaid i ddarparwyr gofal sylfaenol baratoi adroddiad mewn perthynas â'r gofal iechyd maen nhw'n ei ddarparu o dan gontract, neu unrhyw drefniant arall, gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae'r adroddiad yn cadarnhau a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei thanio yn ystod y flwyddyn adrodd mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan y darparwr gofal sylfaenol.

Ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mae yna ddiwylliant adrodd da ymysg contractwyr gofal sylfaenol sy'n defnyddio system adrodd Datix Cymru ar gyfer cofnodi digwyddiadau. Fodd bynnag, rhaid nodi nad yw'n orfodol i gontractwyr gofal sylfaenol ddefnyddio'r system. O ganlyniad, roedd angen cysylltu â'r holl gontractwyr i goladu'r data angenrheidiol ar gyfer yr adroddiad hwn, gan ddarparu dulliau eraill ar gyfer casglu data yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar system Datix Cymru.

Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mae tua **390 o ddarparwyr gofal sylfaenol**:

- 96 o Feddygfeydd
- 141 o Fferyllfeydd Cymunedol
- 77 Optometrydd (gan gynnwys darparwyr gofal cartref)
- 76 o Ddeintyddfeydd

Adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd **cyfradd ymateb o 87% ar draws yr holl grwpiau contractwyr** i'r cais am wybodaeth. Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi crynodeb o'r adroddiadau a ddarparwyd gan ddarparwyr Gofal Sylfaenol sy'n rhan o ardal y Byrddau Iechyd.

Lle mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei thanio yn ystod 2023-24

Yn ystod y flwyddyn adrodd 2023-24, mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi dod i rym mewn perthynas â **darparu gofal iechyd annibynnol**. Cafodd y ddyletswydd ei thanio ar 36 achlysur.

Yr amgylchiadau pan ddaeth y ddyletswydd i rym.

Wrth adolygu'r 36 digwyddiad y credir eu bod wedi tanio'r ddyletswydd gonestrwydd, nodwyd y themâu a'r tueddiadau a ganlyn:

- **Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau** 14
Mae'r mathau o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau yn amrywio ac yn cynnwys camgymeriadau wrth ddsbarthu, sgil-effeithiau rhyngweithio â chyffuriau, a chamgymeriadau presgripsiynu
- **Materion llywodraethu gwybodaeth** 3
- **Materion mynediad** 2
- **Materion clinigol/materion sy'n gysylltiedig â diagnosis** 3
- **Materion cyfeirio/camau dilynol/gweinyddol** 5
- **Tynnu dannedd anghywir** 2
- **Materion amrywiol eraill** 6

Camau mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

Mae pob digwyddiad a adroddir drwy system Datix Cymru yn cael ei drin gan Dîm Llywodraethu Clinigol Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd, a gofynnir am ddysgu gan y contractwyr gofal sylfaenol annibynnol cyn cau unrhyw ddigwyddiadau.

Ochr yn ochr â dysgu unigol, mae unrhyw ddysgu a allai fod o fudd i'r grŵp contractwyr ehangach yn cael ei rannu, pan fo'n briodol, ar draws yr holl grwpiau contractwyr trwy **gylchlythyr Stories for Sharing**.

Ar y cyd â'r Academi Gofal Sylfaenol, mae rhaglen o sesiynau **Dysgu Amser Cinio** i fod i ddechrau ym mis Medi 2024. Bydd hyn yn darparu dull arall o rannu dysgu â chontractwyr gofal sylfaenol.

O ystyried materion cyfrinachedd posibl a amlygwyd uchod, nid yw'n bosibl darparu crynodebau manwl o ddysgu, oherwydd gallai'r rhain olygu bod modd adnabod achosion, ond mae crynodeb isod o rai **themâu dysgu eang**:

- Mae contractwyr wedi nodi bod ymchwiliadau wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio'r dull Dadansoddi Digwyddiadau Sylweddol (SEA) a bod y dysgu'n cael ei rannu mewn cyfarfodydd ymarfer, sesiynau hyfforddiant ac addysg ymarfer, a gydag aelodau staff unigol / grwpiau staff fel y bo'n briodol.
- Rhoddir nodiadau atgoffa i staff mewn perthynas â phwysigrwydd cyfathrebu effeithiol a chywir, a gwirio dynodwyr cleifion.
- Defnyddio'r rhestr wirio llawdriniaethau ar gyfer tynnu dannedd.
- Cynnal archwiliadau priodol i liniaru'r risg o ail-ddigwydd a nodi unrhyw gleifion sydd angen gofal dilynol pellach.
- Adolygu protocolau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn addas at y diben.

Nid yw'n glir o beth o'r wybodaeth a ddarparwyd gan ddarparwyr gofal sylfaenol a oedd y digwyddiadau hynny a hysbyswyd drwy'r broses casglu data mewn gwirionedd yn bodloni'r gofynion ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd, yn unol â'r rheoliadau. Mae hyn wedi nodi **angen am addysg bellach** a bydd rhaglen yn cael ei datblygu a'i gweithredu gan y tîm llywodraethu clinigol gofal sylfaenol yn Chwarter 3 a 4 2024/25 ac ymlaen i 2025/26.

Gweithio i Wella Cymru

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Gwneud Iawn) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG wneud trefniadau ar gyfer trin ac ymchwilio i gwynion. Gelwir y trefniadau hyn yn Gweithio i Wella.



Ffigur 10: Gweithio i Wella Cymru, Llywodraeth Cymru, 2018.

Er bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio darparu'r driniaeth orau i gleifion, weithiau nid yw pethau'n mynd cystal â'r disgwyl. Os oes pryder ynghylch gofal a thriniaeth, gall claf neu ei ofalwr, ffrind, perthynas neu gynrychiolydd godi cwyn. Y lle gorau i ddechrau yw drwy siarad â'r staff sy'n ymwneud â'u gofal neu eu triniaeth er mwyn iddynt allu edrych ar yr hyn a allai fod wedi mynd o'i le a cheisio ei wella.

Os nad yw hyn yn helpu, neu os yw'n well peidio â siarad â'r staff dan sylw, mae tîm cwynion y Bwrdd Iechyd yno i gefnogi a gwrandao. Maent hefyd yn rheoli'r trefniadau Gweithio i Wella ar gyfer y sefydliad.

Sut mae Gweithio i Wella yn gweithio?

Pan fydd cwyn yn cynnwys honiad o niwed, neu fod digwyddiad diogelwch cleifion wedi arwain at **niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth**, bydd iawn ariannol yn cael ei ddyfarnu os sefydlir bod **rhwymedigaeth gymhwyso**. Dyma lle mae prawf cyfreithiol dau gam yn cael ei ddefnyddio i sefydlu a oes:

1. **Torri Dyletswydd;** mae rhywfaint o ofal neu driniaeth y mae claf wedi'i gael wedi disgyn islaw safon resymol a derbyniol.
2. **Achosiad;** mae'n debyg bod peth niwed wedi'i achosi i glaf o ganlyniad i dor-dyletswydd.

Os bydd y Bwrdd Iechyd yn penderfynu bod rhwymedigaeth gymhwyso, neu y gallai fod rhwymedigaeth gymhwyso, bydd y broses **Gwneud Iawn** yn dechrau er mwyn cyflawni dyletswydd y Bwrdd Iechyd i gynnig Gwneud Iawn.

Gall Gwneud Iawn gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- esboniad llawn o'r hyn a ddigwyddodd; ymddiheuriad;
- cynnig i ddarparu gofal neu driniaeth (os yw'n briodol)
- adroddiad ar gamau a gymerwyd, neu a fydd yn cael eu cymryd, i rwystro achosion tebyg rhag digwydd; a/neu iawndal ariannol.

SUT GWNAETH Y BWRDD IECHYD BERFFORMIO O RAN GWEITHIO I WELLA YN YSTOD 2023-24

Gwneud iawn

Yn ystod **2023-24**:

- Derbyniwyd **27** ymateb Rheoliad 33 gyda chynigion gwneud iawn
- Anfonwyd **18** ymateb Rheoliad 33 gyda chynigion gwneud iawn, ac maent yn aros i gael eu derbyn
- Gwnaed **1** taliad ex-gratia i achwynydd i dalu costau meddygol preifat o ganlyniad i fethiannau'r Bwrdd Iechyd.
- Cynigwyd **3** ymddiheuriad fel gwneud iawn
- Anfonwyd **2** ymateb terfynol yn gwadu atebolrwydd ar ôl cael adroddiadau arbenigwyr

Cafodd **17** o arbenigwyr clinigol annibynnol eu cyfarwyddo

Fflagiau Coch

Nid yw'n addas delio â rhai cwynion a digwyddiadau trwy wneud iawn, gan y byddai swm yr iawndal sy'n daladwy (iawndal ariannol), os daethpwyd o hyd i rwymedigaeth gymhwys, yn debygol o fod yn fwy na'r terfyn Gweithio i Wella o £25,000.

Mae enghreifftiau'n cynnwys unrhyw gŵyn neu ddigwyddiad sy'n ymwneud ag unrhyw anafiadau geni; babanod sydd wedi cael eu hoeri; unrhyw ddigwyddiadau sy'n newid bywyd, fel torri aelod o'r corff; strôc; anaf sylweddol i'r ymennydd neu i'r asgwrn cefn; colli golwg neu glyw; cleifion sydd angen mwy nag un llawdriniaeth o ganlyniad i esgeulustod honedig; briwiau pwyso sylweddol; marwolaeth claf â dibynyddion; niwed seicolegol ar ôl marw-enedigaeth; achosion o ganser a fethwyd.

Dylai adroddiad yr ymchwiliad i'r achosion hyn fod yn adroddiad ffeithiol o'r hyn a ddigwyddodd yn unig; ni ddylai ystyried torri dyletswydd neu niwed, a dylid anfon llythyr ymateb yn nodi y dylid ceisio cyngor cyfreithiol mewn perthynas â mynd ar drywydd hawliad esgeulustod clinigol.

- Cafodd **70** o gwynion a digwyddiadau eu hadolygu gan y Tîm Gwneud iawn a chredwyd nad oeddent yn addas ar gyfer Gweithio i Wella oherwydd y gwerth tebygol
- Cafodd **4** achos eu tynnu o'r broses Gwneud iawn a daethant yn hawliadau yn ystod y broses

Gwneud iawn Posibl

- Derbyniwyd **190** o gwynion a digwyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn i gael eu hadolygu ac i dderbyn cyngor gan y Tîm Gwneud iawn
- Adolygwyd **104** ohonynt a chredwyd nad oeddent yn tanio Rhan 6 o'r Rheoliadau (Gwneud iawn)
- Mae **25** o gwynion yn aros am adolygiad terfynol, yn ogystal â
- **61** digwyddiad

Dysgu a Chronfa Risg Cymru

Rhaid cyflwyno Adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau i Gronfa Risg Cymru o fewn pedwar mis calendr ar ôl cadarnhau rhwymedigaeth gymhwyso yn dilyn ymchwiliad, er mwyn rhoi sicrwydd bod y materion a nodwyd wedi cael sylw i leihau'r risg o ailddigwydd neu leihau effaith digwyddiad yn y dyfodol.

- Cyflwynwyd **28** Adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau Gwneud lawn yn ystod y flwyddyn
- Mae dysgu wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer **20** achos hyd yma

Ar ôl i Gronfa Risg Cymru gymeradwyo'r dysgu, bydd cost yr achos yn cael ei ad-dalu i'r Bwrdd Iechyd ar ôl derbyn Adroddiad Rheoli Achos.

- Cyflwynwyd **31** Adroddiad Rheoli Achos Gwneud lawn.
- Cymeradwywyd **31** o achosion ar gyfer ad-daliad

Cwynion

Nod y Bwrdd Iechyd yw datrys cwynion cyn gynted â phosibl a, lle bo'n briodol, rheolir yr achosion hyn fel 'datrysiad cynnar', sy'n golygu eu bod yn cael eu datrys o fewn dau ddiwrnod gwaith i'w derbyn ac er boddhad yr achwynydd. Mae'r rheini nad ydynt wedi cael eu datrys o fewn yr amserlen hon, neu sy'n fwy cymhleth, neu sy'n awgrymu bod niwed wedi cael ei achosi neu y gallai fod wedi cael ei achosi, yn cael eu rheoli o dan Gweithio i Wella.

Mae cwynion yn cael eu trin fel cyfleoedd dysgu ac yn dod ag amrywiaeth eang o faterion i sylw, ac ymatebir i bob un ohonynt gyda dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae manylion y pryderon yn cael eu categorioedd mewn perthynas â'r prif bwnc, yn unol â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru, i gefnogi'r gwaith o nodi themâu sy'n dod i'r amlwg a meysydd pryder penodol sy'n arwain at waith gwella penodol.

Themâu / tueddiadau cwynion

Mae'r rhan fwyaf o'r cwynion a gafwyd eleni hyd yma yn ymwneud â gwasanaethau gofal eilaidd, gyda'r rhan fwyaf o gwynion ffurfiol yn ymwneud â thriniaeth ac asesiadau clinigol (**1,209**), cyfathrebu gwael (**274**) ac agwedd ac ymddygiad staff (**190**). Themâu eraill a gododd dro ar ôl tro oedd mynediad at feddyginiaeth (**145**), amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau (**136**), a gofal nyrsio cleifion (**118**). Cyfanswm nifer y cwynion, wedi'u dadansoddi yn ôl is-fathau, fel y dangosir isod yn **Nhabl 3**.

Is-fathau o Gŵyn	Cyfanswm
Triniaeth / asesiad clinigol	1209
Canmoliaeth ynghylch triniaeth / asesiad clinigol	5
Oedi / Diffyg diagnosis	87
Oedi / diffyg triniaeth neu asesiad	654
Diagnosis anghywir	57
Triniaeth / Aseiad anghywir / annigonol	338
Ymateb i driniaeth	62
Cadw gwrthrych estron heb fwriad ar ôl llawdriniaeth / triniaeth	6
Materion Cyfathrebu (gan gynnwys iaith)	274
Cyfathrebu â chleifion / defnyddwyr gwasanaeth	161
Cyfathrebu â theuluoedd	75
Gwybodaeth annigonol / anghywir	18
Cyfathrebu ag Asiantaethau Allanol neu Sefydliadau eraill y GIG	7
Cyfathrebu rhwng Gwasanaethau / Adrannau	5
Problemau cysylltiedig â'r Gymraeg	4
Arweiniad, Polisiâu a Gweithdrefnau - materion a godwyd	2
Argaeledd braille, iaith arwyddion, gwasanaeth tecstio, llinell iaith	2
Agwedd ac Ymddygiad	190
Agwedd / Ymddygiad Staff Clinigol	173
Agwedd / Ymddygiad Staff Anghlinigol	17
Adolygiadau o	145
Mynediad at eich meddyginiaeth eich hun	30
Oedi / Amllder wrth ddarparu meddyginiaeth	26
Rhoi meddyginiaeth anghywir	20
Rhoi dos anghywir	17
Meddyginiaeth heb ei rhagnodi	15
Argaeledd meddyginiaeth	14
Rheoli poen yn wael	9
Presgripsiwn anghywir	5
Diffyg / Dim cyllid ar gyfer meddyginiaeth	3
Alergeddau heb eu hystyried	3
Cleifion yn cael meddyginiaeth ond ddim yn cael eu harsylwi yn ei chymryd	2
Dim esboniad o'r sgil effeithiau	1
Apwyntiadau	136
Oedi o ran apwyntiadau / amseroedd aros / trafndiaeth	86
Apwyntiad wedi'i ganslo	21
Apwyntiad / trafndiaeth wedi'i ganslo	14
Colli'r claf o ran camau dilynol	6
Capasiti clinigau	3
Cysondeb staff	3
Lleoliad yr apwyntiad yn anaddas	2
Claf wedi'i drefnu i glinig cleifion allanol anghywir	1
Gofal i Gleifion	118
Gofal a pharch cyffredinol	88
Ymateb i anghenion cleifion	13

Trin cleifion	9
Diffyg cymorth gyda hylendid personol cleifion – bath, dannedd, toiled	3
Diffyg cymorth gyda bwydo / hydradu cleifion	3
Trefniadau ymweld	1
Materion Rhyddhau	86
Rhyddhau amhriodol / anniogel	71
Rhyddhau - dim trefniadau dilynol	6
Amser rhyddhau amhriodol	5
Gwybodaeth anghywir / annigonol yn y Crynodeb Rhyddhau	2
Oedi o ran apwyntiadau / amseroedd aros / trafndiaeth	2
Mynediad (at Wasanaethau)	73
Oedi o ran apwyntiadau / amseroedd aros / trafndiaeth	53
Cymhwysedd / meini prawf y claf heb eu bodloni gan y Gwasanaeth	7
Problemau o ran delio â galwadau / galwadau awtomataidd	4
Diffyg / Dim cyllid i'r claf o fewn y sefydliad	3
Diffyg / Dim cyllid ar gael o dan y GIG	3
Diffyg / Dim cyllid i'r claf y tu allan i'r sefydliad	2
Problemau o ran y cyfeiriad / lleoliad	1
Cyfrinachedd	45
Torri cyfrinachedd	31
Datgelu Gwybodaeth am Gleifion yn anghywir	7
Gohebiaeth wedi'i anfon i'r cyfeiriad anghywir	7
Canlyniadau Profion ac Ymchwiliadau	31
Oedi cyn derbyn canlyniadau profion / canlyniadau profion wedi mynd ar goll	19
Ni weithredwyd ar ganlyniadau profion	7
Profion heb eu cynnal / heb eu hailadrodd	3
Prawf heb ei gyflawni / wedi'i gyflawni'n anghywir	2
Atgyfeirio	31
Oedi wrth Atgyfeirio	17
Pryderon ynghylch graddio / penderfyniad ynghylch atgyfeirio	14
Cadw Cofnodion	26
Gwybodaeth anghywir mewn cofnodion / gwybodaeth wedi mynd ar goll	16
Cofnodion ar goll	6
Gwybodaeth amhriodol yn y cofnodion	4
Damweiniau / Cwypniadau	16
Llithro, baglu neu syrthio	10
Cwypno o uchder, e.e. troli, cadair, gwely	4
Diffyg cymorth	1
Rhew (eira)	1
Codi a Chario'r Claf / Defnyddiwr Gwasanaeth yn Amhriodol	1
Offer	12
Darparu offer anghywir / diffygiol i'r claf / defnyddiwr gwasanaeth	6
Diffyg offer / Argaeledd offer	5
Diffyg hyfforddiant ar ddefnyddio offer / dyfeisiau	1
Materion Monitro / Arsylwi	10
Methiant i fonitro / ymgymryd ag arsylwadau'n briodol	7

Cymorth amhriodol ar gyfer materion Iechyd Meddwl	2
Methiant i sylwi bod claf yn dirywio	1
Derbyniadau	9
Dim dyddiad derbyn	6
Trosglwyddo anniogel	1
Oedi wrth Dderbyn i'r Ward o'r Adran Achosion Brys	1
Preifatrwydd ac Urddas	7
Methiant i gynnal urddas y Claf / Defnyddiwr Gwasanaeth	4
Methiant i gynnal preifatrwydd y Claf / Defnyddiwr Gwasanaeth	3
Amgylchedd / Cyfleusterau	6
Diffyg darpariaeth parcio / Argaeledd mannau parcio	2
Ysmygu ar safleoedd y GIG	1
Sŵn / Tarfu ar Gleifion	1
Diffyg toiledau	1
Arall	7
Arall	7
Delio â Chwynion	4
Diffyg ymgysylltu â'r achwynnydd	2
Ansawdd yr ymateb	1
Cymhwyso'r broses gydsynio	1
Cydsynio	5
Dim cydsyniad wedi'i sicrhau (heb lofnodi'r ffurflen gydsynio ar gyfer triniaeth / archwiliad)	4
Ffurflen gydsyniad heb ei llenwi ar gyfer triniaeth / archwiliad	1
Materion Maeth / Hydradiad	2
Priodoldeb bwyd / dewisiadau deiet	2
Cydraddoldeb	2
Gwahaniaethu sy'n ymwneud ag Anabledd	3
Gwahaniaethu sy'n ymwneud â Rhywedd	3
Niwed i'r Croen	2
Methiant i reoli niwed i'r croen yn briodol	2
Ymosod	3
Ymosodiad Corfforol Honedig	2
Materion yn ymwneud ag ataliaeth amhriodol	1
Rheoli Heintiau	1
Diffyg cyfleusterau arwahanu	1
Adnoddau	2
Prinder staff yn y maes clinigol	2
Glendid	1
Glendid yr ardal glinigol	1
Arlwyo	1
Safon y bwyd / diod	1
Cyfanswm	2457

Tabl 3: Cyfanswm nifer y cwynion a dderbyniwyd, wedi'u dadansoddi yn ôl is-fath,

Rheoli cwynion

Mae pob cwyn a dderbynnir gan BIPBC yn cael ei chydnabod yn llawn, ei hymchwilio'n drylwyr, ac wedyn mae'r achwynydd yn cael ymateb cynhwysfawr sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Mae nifer fach o'r cwynion hyn lle ystyrir bod y methiant yn torri ar ddyletswydd gofal y Bwrdd Iechyd. Ymchwilir i unrhyw achos o'r fath sydd wedi achosi niwed, neu a allai fod wedi achosi niwed, gyda thryloywder llwyr i nodi achosion sylfaenol, methiannau mewn prosesau neu risgiau posibl, er mwyn i'r Bwrdd Iechyd allu dileu neu liniaru'r cyfle ar gyfer unrhyw achos tebyg o dorri gofal yn y dyfodol.

Mae cwynion a reolir o dan Gweithio i Wella yn cael eu graddio yn erbyn lefelau difrifoldeb a bennwyd yn genedlaethol ac mae hyn wedyn yn cael ei adolygu fel rhan o'r ymchwiliad. Mae **Tabl 4**, isod, yn rhoi dadansoddiad o'r graddau difrifoldeb ar gyfer cwynion, yn dilyn ymchwiliad a chau.

Graddio	Nifer y cwynion a reolir dan Gweithio i Wella
Gradd 5 (niwed trychinebus)	57
Gradd 4 (niwed difrifol)	143
Gradd 3 (niwed cymedrol)	629
Gradd 2 (niwed isel)	819
Gradd 1 (dim niwed)	809
Cyfanswm	2457

Tabl 4: Cyfanswm nifer y cwynion a reolir o dan Gweithio i Wella, yn ôl graddfa,

O'r cyfanswm o **2,457** o gwynion a dderbyniwyd, roedd **2,048** yn cael eu rheoli o dan Gweithio i Wella ac roedd **409** yn destun Datrysiaid Cynnar.

Gwaith gwella

Mae'r polisi a'r weithdrefn gwyno yn gadarn ac yn cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth genedlaethol a bod y gwasanaeth dynodedig yn deall eu cyfrifoldeb a'u hatebolrwydd wrth ymchwilio i'w cwynion tra'n archwilio niwed a thorri dyletswydd.

Yn dilyn ymchwiliad manwl, mae cynllun gweithredu yn cael ei ddogfennu a chmau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod newidiadau cadarnhaol yn cael eu gwneud i wella diogelwch a phrofiad cleifion, fel rhan o ymrwymiad ar y cyd i wella'n barhaus ac i gyflawni uchelgais y Bwrdd Iechyd i fod yn sefydliad sy'n dysgu, sy'n seiliedig ar dryloywder a bod yn agored.

Mae'r tîm cwynion yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r Gymuned Iechyd Integredig / Is-adrannau i leihau nifer y cwynion hwyr, mae model taflwybr cwynion newydd wedi cael ei ddatblygu i wella perfformiad rheoli cwynion.

Er mwyn helpu i ddatrys cwynion, mae cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ac arweinwyr adrannol i adolygu cwynion gradd 1 a 2 a dderbyniwyd ar gyfer yr wythnos flaenorol, mae hyn yn cefnogi cau pryderon lefel isel yn gynnar.

Mae dadansoddiad thematig yn cael ei gynnal yn wythnosol i nodi meysydd sy'n peri pryder ac mae unrhyw achosion rheolaidd yn cael eu rhannu'n systematig â Thîm Gweithredol BIPBC ac uwch dimau rheoli yn y gwasanaethau hynny i ymchwilio a nodi cyfleoedd i wella. Mae themâu dysgu yn cael eu cofnodi a'u hadrodd

yn y Grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr (PCEG) a'n Fforwm Dysgu Sefydliadol (OLF), gyda mentrau allweddol yn cael eu trafod gan ganolbwyntio ar rannu arferion da i wella profiad cleifion.

Mae gwaith rhagweithiol yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) i fynd i'r afael â themâu cwynion sy'n codi dro ar ôl tro. Mae'r tîm PALS yn darparu hyfforddiant profiad cleifion a gofalwyr sy'n cynnwys grymuso staff i ddatrys pryderon lefel isel.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol ym maes cwynion, mae pob Cymuned Iechyd Integredig / Is-adran wedi mabwysiadu cyfarfodydd Gweithio i Wella wythnosol i reoli cynnydd y cwynion a dderbynnir. Yn ogystal, mae cyfarfod gwella wythnosol dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio yn cefnogi ymyrraeth gynnar i sicrhau bod achwynwyr yn cael datrysiaid amserol.

Mae materion sy'n ymwneud ag agweddau ac ymddygiad a materion cyfathrebu yn parhau i fod yn thema gyffredin ar draws yr holl wasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â'r meysydd hyn, ac wedi gweld gwelliant amlwg mewn cwynion sy'n ymwneud â chyfathrebu; gyda 246 o gwynion wedi dod i law yn 2023/24, i lawr o 496 ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymdrechu i wella pob agwedd ar gyfathrebu. Mae'r camau gweithredu canlynol wedi parhau drwy gydol 2023/24, gyda gostyngiad o 253 yn nifer y cwynion sy'n ymwneud â chyfathrebu:

- Mae'r Tîm Cwynion yn cynnal 'clinigau cwynion' dair gwaith yr wythnos drwy Microsoft Teams i gefnogi staff. Mae hwn yn gyfle i wasanaethau gysylltu â'r tîm cwynion a chael cyngor arbenigol i gefnogi datrysiaid amserol i'w cwynion.
- Er mwyn helpu i wella cyfathrebu a staff sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaeth, mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn parhau i ddarparu cyfres o sesiynau Hyfforddiant Profiad Cleifion a Gofalwyr wyneb yn wyneb ar draws y Cymunedau Iechyd Integredig a Gwasanaethau Arbenigol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cyfathrebu effeithiol, grymuso staff i ddatrys materion yn lleol er mwyn annog datrys cwynion yn gynnar a chodi ymwybyddiaeth o rôl PALS.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a ariennir gan Lywodraeth Cymru i archwilio datrysiaid digidol arloesol i wella cyfathrebu rhwng staff a pherthnasau pan fydd eu hanwyliaid yn yr ysbyty. Mae staff, cleifion a gofalwyr wedi cymryd rhan mewn grwpiau ffocws i rannu eu profiadau o'r hyn a allai weithio'n dda. Bydd yr adborth hwn yn siapio'r datrysiaid digidol yn y dyfodol i gefnogi cyfathrebu teuluoedd â'u hanwyliaid pan fydd yng ngofal y Bwrdd Iechyd fel claf mewnol.
- Mae staff sy'n Hyrwyddwyr Cleifion a Gofalwyr yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr drwy rannu gwybodaeth a mynd ati i gasglu adborth cleifion. Mae Hyrwyddwyr Cleifion a Gofalwyr yn bwynt cyswllt i wella ymgysylltiad rhwng y tîm, gwasanaethau clinigol a chleifion, drwy ofyn, monitro a gweithredu ar adborth cleifion.
- Er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng cleifion, teuluoedd a staff, lansiodd y Bwrdd Iechyd y gwaith o gyflwyno Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) yn ddigidol, gan ddarparu mynediad 24 awr at gyfieithwyr. Mae'r dehongliad fideo yn cynnig cymorth i gleifion sy'n cael gofal heb ei gynllunio gan nad oes angen archebu gwasanaeth BSL fideo na dehongliad iaith arall ymlaen llaw. Ers cyflwyno WITS yn ddigidol, adroddwyd bod cynnydd o 50% yn y defnydd o gyfieithu digidol fel dull o gyfathrebu â chleifion a'u teuluoedd am eu gofal.
- Mae staff cwynion yn mynychu cyfarfodydd wythnosol gyda'r gwasanaethau, yn ogystal â'r clinigau cwynion, gan hysbysu a thynnu sylw at unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn cwynion newydd a dderbynnir, yn ogystal â darparu cyngor ac arweiniad ar reoli cwynion i'r arweinwyr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys pryderon sy'n ymwneud â chyfathrebu â staff sy'n arwain at brofiad negyddol i'r claf neu ei anwyliaid.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am ddarparwyr gofal yng Nghymru. Yn ystod **2023/2024** mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael cyfanswm o **214** o achosion. Cafwyd y ffigur hwn gan yr Ombwdsmon a'i groeswrio â data mewnol ac mae'n gywir adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Adroddiadau Budd y Cyhoedd

O bryd i'w gilydd, gall yr Ombwdsmon gynhyrchu adroddiad budd y cyhoedd (Rheoliad 23), sy'n gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o fath penodol o achos. Yn ystod y cyfnod hwn derbyniodd y Bwrdd Iechyd **3 adroddiad budd y cyhoedd**.

Mae'r cyntaf a'r ail adroddiad budd y cyhoedd yn gysylltiedig â'r un achos, a dderbyniwyd ym mis Awst 2023, ac yn ystyried y canlynol:

- a) Cafodd y llawdriniaeth i dynnu pendics y claf ei gohirio'n ormodol
- b) Bod methiant i ymchwilio i achos anawsterau anadlu'r claf mewn modd amserol.
- c) O ystyried yr uchod, gwnaeth yr Ombwdsmon hefyd ymchwilio i'r pryder ychwanegol bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â threfnu camau dilynol a thriniaeth briodol ar gyfer y claf mewn ymateb i ganfod mucocoele yn y pendics yn dilyn colonosgopi ym mis Medi 2017.

Roedd y trydydd adroddiad budd y cyhoedd, a ddaeth i law ym mis Hydref 2023, yn ystyried:

- a) a wnaeth y Bwrdd Iechyd, rhwng mis Ionawr a mis Medi 2018, ganfod, ymchwilio a thrin stenosis rhydweli garotid (rhwystr o bibellau gwaed yng ngwddf claf, gan gyfyngu llif y gwaed i ganol yr ymennydd, yr wyneb a'r pen) yn brydlon ac yn briodol?
- b) Hefyd, a wnaeth y Bwrdd Iechyd ddarparu gofal amserol ar ôl i'r stenosis gael ei ganfod ym mis Medi, hyd at y llawdriniaeth ym mis Tachwedd 2018?

Digwyddiadau

Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau sy'n cael eu cofnodi yn cael eu graddio fel 'dim' neu 'isel' gan nad oedd y digwyddiad wedi achosi unrhyw niwed sylweddol.

Cofnodwyd cyfanswm o **41,690 o ddigwyddiadau** yn **2023/24**, nifer debyg i'r flwyddyn flaenorol o **41,724**. O'r rhain, adroddwyd bod **34,807** o ddigwyddiadau yn effeithio ar gleifion / defnyddwyr gwasanaeth. (Noder: mae adroddiadau ôl-weithredol o Covid-19 nosocomiaidd fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol wedi cael eu heithrio).

Tueddiadau / themâu digwyddiadau

Dangosir dosbarthiad y digwyddiadau cleifion / defnyddwyr gwasanaeth a adroddwyd, ynghyd â barn yr adroddwr, am lefel y niwed, isod yn **Nhabl 5**.

	None	Low	Moderate	Severe	Catastrophic	Total
Pressure Damage, Moisture Damage	665	7540	2895	89	0	11189
Accident, Injury	915	3650	947	76	9	5597
Behaviour (including violence and aggression)	577	2087	794	63	5	3526
Medication, IV Fluids	1016	1488	526	60	6	3096
Assessment, Investigation, Diagnosis	294	618	385	121	21	1439
Treatment, Procedure	248	669	406	77	11	1411
Maternity adverse occurrence	383	738	160	14	10	1305
Access, Admission	325	562	169	43	8	1107
Infection Prevention and Control	86	607	250	8	4	955
Communication	241	472	185	25	6	929
Transfer, Discharge	161	391	244	42	10	848
Records, Information	315	348	76	12	0	751
Equipment, Devices	170	287	98	17	0	572
Safeguarding	72	213	182	27	7	501
Patient/service user death	79	29	6	1	323	438
Infrastructure (including staffing, facilities, environment)	111	162	64	16	1	354
Information Governance, Confidentiality	83	164	36	2	0	285
Monitoring, Observations	35	105	84	18	12	254
Nutrition, Hydration	17	68	39	4	1	129
Consent, Mental Capacity Act (including DoLS)	8	49	11	1	0	69
Information Technology	17	22	10	3	0	52

Tabl 5: Cyfanswm nifer y digwyddiadau, yn ôl dosbarthiad, BIPBC.

Mae'r Tîm Diogelwch Cleifion yn monitro digwyddiadau i ganfod themâu a ble mae angen i'r rhain gyfrannu at flaenoriaethau sefydliadol. Mae'r digwyddiadau sy'n cael eu hadrodd amlaf yn ymwneud â niwed briwiau pwysu a chleifion yn cwmpo. Dylid nodi hefyd bod y nifer sylweddol o farwolaethau cleifion a gofnodir yn gleifion o dan wasanaethau iechyd meddwl sy'n cael eu hisraddio yn dilyn ymchwiliad ac adolygiad o'r cyfraniad a'r hepgoriad.

Gwaith gwella

Nid yw hyfforddiant ar atal wserau pwysu, gofal a thriniaeth yn orfodol ar hyn o bryd yn y Bwrdd Iechyd. Wrth fynd i'r afael â hyn yn y tymor byr, mae'r Nyrs Arweiniol Gwella HAPU (briwiau pwysu a gafwyd yn sgil gofal iechyd), ar y cyd â'r Nyrsys Hyfywedd Meinwe, yn ailddatblygu'r dudalen Hyfywedd Meinwe Betsinet ar safle mewnwyd mewnol y Bwrdd Iechyd. Bydd hon yn gronfa ar gyfer fideos hyfforddi wedi'u dilysu, pecynnau addysg ac ati, a fydd yn hygyrch ac yn galluogi'r holl staff i gael gafael arnynt.

Wrth ddangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ansawdd a diogelwch cleifion o ran lleihau nifer yr achosion o friwiau pwysu a gafwyd yn sgil gofal iechyd, mae Grŵp Strategol HAPU wedi cael ei sefydlu i oruchwylio rhaglenni gwella lleol, yn unol â'r cynllun gwella strategol, gyda'r taflwybr o ddileu HAPU y gellir ei osgoi a gostyngiad o 50% ym mhob HAPU.

Y nod yw ceisio sicrwydd gan bob Cymuned Iechyd Integredig ac Is-adran wrth adrodd o gyfarfodydd niwed HAPU lleol, gan amlinellu themâu a thueddiadau o ddigwyddiadau HAPU gydag unrhyw achos o dorri rheolaeth HAPU wrth nodi meysydd ar gyfer dysgu ac arfer gorau i wella gwybodaeth sylfaenol a chychwyn camau adfer.

Mae'r Nyrs Arweiniol HAPU wedi dosbarthu polisi NU38 ar draws pob Cymuned Iechyd Integredig ac Is-adran, ynghyd â thafenni Gwybodaeth i Gleifion Cymru Gyfan, sydd bellach ar gael ym mhob ardal ar gyfer pob claf.

Mae hyn yn annog dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gynnwys y claf yn y continwmm o wneud penderfyniadau ar y cyd am ei driniaeth o ran atal a thrin briwiau pwysu a'r canlyniadau iechyd cysylltiedig, ac i drafod cynnydd pellach.

Mae Grŵp Cwmpïadau Strategol y Bwrdd Iechyd yn parhau i arwain ar weithredu amlddisgyblaethol lleihau cwmpïadau cleifion mewnol, gan ganolbwyntio ar asesu risg, gan sicrhau priodoldeb yr amgylchedd a'r defnydd o adnoddau i wella diogelwch cleifion. Mae'r dull hwn yn galluogi'r grŵp i nodi unrhyw themâu a thueddiadau neu fannau problemus sy'n dod i'r amlwg a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

Cyflwynodd grŵp cydweithredol ar gwmpïadau fodiwlau e-ddysgu gorfodol ar gwmpo sy'n cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau bod y modiwlau'n gyfredol o ran y dystiolaeth / ymarfer ddiweddaraf. Y Bwrdd Iechyd yw'r unig fwrdd yng Nghymru sydd wedi gwneud y dull gweithredu hwn yn orfodol i'r holl staff. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael ei gymeradwyo gan Rwydwaith Cwmpïadau Cleifion Mewnol Cymru Gyfan, sy'n argymhell bod y modiwlau e-ddysgu yn cael eu rhoi ar waith ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru fel y safon ar gyfer e-ddysgu. Mae'r gofyniad i staff dros dro fod wedi cael eu hyfforddi i atal cwmpïadau ymysg cleifion hefyd wedi cael ei ychwanegu at gontractau ffurfiol gydag Asiantaethau Nyrsio.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran Atal a Rheoli Cwmpïadau Cleifion Mewnol sy'n Oedolion dros y pedair blynedd diwethaf, gyda chynnydd sylweddol yn dilyn Hysbysiad Gwella cyntaf yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a gyhoeddwyd ar 16 Mehefin 2021. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fod mewn sefyllfa fregus o ran ansawdd, cywirdeb a dogfennu ymyriadau a roddwyd ar waith fel rhan o'r gwaith gorfodol Cymru gyfan o gwblhau'r Asesiad Amlffactorol o Gwmpïadau Oedolion Mewnol ac Iechyd Esgyrn (FBHMA).

Mae'r gwaith gwella sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r FBHMA a'i ansawdd wedi cael ei gryfhau drwy broses adolygu gan gymheiriaid lle mae staff nyrsio yn beirniadu ansawdd a chywirdeb ei gilydd yng nghyd-destun yr FBHMA.

Mae pob codwm gyda niwed yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd wythnosol y Gymuned Iechyd Integredig ar Niwed, gyda chynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch yn bresennol. Mae'r cyfarfodydd wythnosol hyn yn cynnwys asesu risg ac adolygu ymyriadau, yn ogystal ag ymarfer ar ôl cwmpo. Argymhellir rhannu tueddiadau neu batrymau â grŵp Diogelwch Cleifion y Gymuned Iechyd Integredig / Is-adran, y grŵp Strategol Cwmpïadau Cleifion Mewnol, a grŵp Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd.

Mae'r gwaith o ddatblygu dangosfwrdd ansawdd, sy'n cynnwys asesiadau risg *Purpose T* ac FBHMA, bellach wedi'i gwblhau fel rhan o Gofnod Gofal Nyrsio Cymru. Bydd y dangosfwrdd hwn yn cydymffurfio â'r gwaith o gwblhau'r holl asesiadau risg ar gyfer cleifion mewnol sy'n oedolion, ond nid ansawdd y gwaith cwblhau ac ymyriadau. Mae'r data ansoddol hwn yn cael ei gasglu drwy archwiliad.

Digwyddiadau Byth

Yn 2023/24, rhoddwyd gwybod am 6 digwyddiad 'byth'.

	Y Gymuned Iechyd Integredig Ganolog	Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain	Cymuned Iechyd Integredig y Gorllewin	Menywod	Cyfanswm Cyffredinol
Rhoi meddyginiaeth yn ôl y llwybr anghywir	2				2
Llawdriniaeth safle anghywir		2	1	1	4
Cyfanswm	2	2	1	1	6

Tabl 6: Cyfanswm nifer y Digwyddiadau Byth a adroddwyd, yn ôl ardal, BIPBC.

Mae Digwyddiadau Byth yn ddigwyddiadau niweidiol y dylai systemau a phrosesau'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad ydynt byth yn gallu digwydd. Y thema gyffredin o hyd yw methiant i ddefnyddio'r Safon Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Ymwthiol (LocSSIP), a methiant i ddefnyddio rhestr wirio diogelwch llawfeddygol Sefydliad Iechyd y Byd yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys mewn ardaloedd y tu allan i theatrau.

Mae Cymrawd Gwella Ansawdd Clinigol wedi gweithio'n gyson i adolygu ymagwedd y sefydliad at restrau gwirio diogelwch llawfeddygol ac mae wedi gweithio'n agos gyda staff theatr a llawfeddygol ar draws y Bwrdd Iechyd.

Themâu / tueddiadau Digwyddiad Byth

Mae'r prif themâu o ran y dysgu o'r digwyddiadau hyn yn ymwneud â methiannau mewn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys y gofyniad am lwybrau cadarn i gleifion. Canfuwyd bod hyn yn seiliedig ar wybodaeth anghywir / diffyg gwybodaeth wrth drosglwyddo, cyfathrebu a dogfennu, a ffactorau dynol yn ffurfio rhan o'r achos sylfaenol. Mae dysgu'n nodi pa systemau a phrosesau sy'n gallu helpu gyda'r broses glir ar gyfer cwblhau tasgau, neu os ydynt eisoes yn bodoli, pam na chawsant eu dilyn.

Mae rhannu a gwreiddio dysgu yn y system yn parhau i fod yn risg i'r Bwrdd Iechyd ac mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i ddod yn sefydliad sy'n dysgu. Mae cynlluniau ar waith i gryfhau'r broses o gael gafael ar ddysgu, ei rannu a'i ymgorffori, gan gynnwys y canlynol:

- Fforwm Dysgu Sefydliadol misol (wedi dechrau ym mis Chwefror 2023)
- Fforwm Gofal Heb Niwed wythnosol (wedi dechrau ym mis Ionawr 2023)
- "Gwersi a ddysgwyd" diwygiedig ar dempled tudalen
- Llyfrgell Dysgu o Ansawdd digidol newydd

Hawliadau

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, **2023-24**, mae **353** o achosion wedi cael eu hagar, sy'n gynydd o gymharu â'r rheini a gafodd eu hagar y llynedd (**281**). Mae cyfanswm eleni'n cynnwys **307** o hawliadau **Esgeulustod Meddygol** a **46** o hawliadau **Anafiadau Personol**.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd **945 o hawliadau esgeulustod clinigol ac anafiadau personol ar agor** ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn ogystal â rheoli Hawliadau, mae'r Tîm Cyfraith Gofal Iechyd hefyd yn rheoli pob Cwest a gafwyd gan Grwner EF, yn cefnogi'r staff clinigol ehangach gyda materion y Llys Gwarchod, ac yn cefnogi ymholiadau cyngor cyfreithiol cyffredinol sy'n cynnwys adolygu datganiadau ar gyfer materion yr heddlu ac achosion cyfraith teulu.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl gweld hawliadau'n parhau i gynyddu o ganlyniad i bandemig Covid-19, er nad yw hyd a lled hyn yn hysbys eto. Mae'n debygol y bydd hawliadau o'r fath yn ymwneud nid yn unig ag effeithiau uniongyrchol Covid 19 (h.y. heintiau nosocomiaidd posibl), ond hefyd yr effeithiau anuniongyrchol (h.y. amseroedd aros hirach am lawdriniaethau o ganlyniad i dorri gwasanaethau yn 2020-22). Credir y gallai'r rhan fwyaf o hawlwr fod yn aros i Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 ddod i ben. Mae bod yn agored, yn dryloyw, gwella diogelwch cleifion a dysgu gwersi yn dal yn allweddol i'r Bwrdd Iechyd.

Mae rhai Cyfreithwyr Hawlwyr yn cynrychioli nifer o Hawlwyr Anafiadau Personol mewn hawliadau Covid yn erbyn cyrff Iechyd yng Nghymru a Lloegr. O'r herwydd, maent wedi gwneud cais am 'orchymyn ymgyfreitha grŵp'. Maent yn ceisio gorchymyn gan y Llys i ganfod 6 phrif hawliad ac i bob hawliad arall gael ei atal hyd nes y gwneir gorchymyn pellach. Mae'r Cyfreithwyr Hawlwyr yn awgrymu y bydd yr hawliadau arweiniol yn pennu'r holl faterion sy'n codi yn yr hawliadau hynny, yn ogystal â'r materion canlynol:

- a. Addasrwydd a / neu ddigonolrwydd y cyfarpar diogelu personol a ddarparwyd i'r Hawlwyr ar gyfer eu gwaith, yn enwedig darparu masgiau llawfeddygol fel cyfarpar diogelu personol;
- b. Cyfrifoldeb y Diffynyddion dros gyflenwi unrhyw gyfarpar diogelu personol nad oedd yn addas nac yn ddigonol;
- c. Y gyfraith a / neu brofion i'w cymhwyso ar achosiad Covid-19.

Cynhaliwyd y gwrandawriad Llys ym mis Mawrth 2024 ac nid oedd yn llwyddiannus. Dywedodd y Barnwr ei fod yn amhriodol ac yn gynamserol ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw orchymyn o'r fath. Yn unol â safbwynt y Bwrdd Iechyd, cytunwyd y byddai rheoli achosion cyffredin yn synhwyrol ac mae wedi gosod cyfarwyddiadau ac wedi ailrestru'r mater ar gyfer cynhadledd rheoli achosion deuddydd o hyd ym mis Hydref 2024.

Ym mis Ionawr 2024, dyfarnodd y Goruchaf Lys mewn perthynas â hawliadau dioddefwyr eilaidd sy'n effeithio ar hawliadau a phryderon. Dioddefwr eilaidd yw rhywun sydd wedi dioddef niwed seiciatrig nid drwy fod yn rhan uniongyrchol o'r digwyddiad ond drwy ei weld. Mae dioddefwyr eilaidd yn tueddu i fod yn aelodau o'r teulu sy'n dyst i driniaeth feddygol esgeulus. Mae'r dyfarniad wedi ei gwneud yn llawer anos i hawliadau gan ddiodefwyr eilaidd lwyddo. I grynhoi, barnwyd bod hawliadau gan ddiodefwyr eilaidd am anafiadau seiciatrig ond yn ddilys pan fo'r hawlydd yn dyst i 'ddamwain' neu ei chanlyniad uniongyrchol, sy'n wahanol i argyfwng meddygol ac nad oes gan glinigydd ddyletswydd gofal tuag at ddiodefwr eilaidd. Oherwydd y dyfarniad hwn, mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi gweld nifer o hawliadau diodefwyr eilaidd yn cael eu tynnu'n ôl. Mae'r hawliadau sy'n weddill yn cael eu hadolygu fesul achos gyda chyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.

Tueddiadau / themâu hawliadau

Drwy gydol **2023-24**, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sylwi ar **dueddiadau mewn hawliadau** yn y meysydd canlynol:

- Mae hawliadau a ddygwyd mewn perthynas â ‘Triniaeth / Gweithdrefnau’ honedig a fethwyd a methiannau mewn perthynas ag ‘Asesiad / Ymchwiliad / Diagnosis’ yn parhau i fod y mathau uchaf o gategoriâu a dderbyniwyd ar gyfer hawliadau esgeulustod clinigol.
- Ar gyfer hawliadau am anafiadau personol, y duedd o hyd yw llithro a baglu, trais / ymddygiad ymosodol, a chodi a chario .
- Er nad dyma’r nifer uchaf, hawliadau Anafiadau Genedigaethau sy’n cyfrif am y symiau setlo mwyaf a delir am Hawliadau Esgeulustod Meddygol.

Gwaith gwella

Mae rhai camau gweithredu a gwelliannau a wnaed ar ôl ymchwilio i hawliadau yn cynnwys:

- Oherwydd y pryderon parhaus a godwyd o ran gweithdrefnau rhwyll / tâp, mae llwybr wrogynaecoleg newydd ar waith sy’n cynnwys atgyfeirio at Ffisiotherapi am driniaethau rheoli ceidwadol fel dewis amgen i symud ymlaen gyda TVT-O.
- Cydnabyddir bod angen parhaus am brosesau cadarn ar gyfer cydsynio cleifion sy’n tynnu sylw at y risgiau a’r cymhlethdodau cydnabyddedig, yn ogystal â chaniatáu i gleifion bwyso a mesur yr holl opsiynau ar gyfer triniaeth (gan gynnwys dim). Mae Gwasanaethau Merched wedi canolbwyntio ar hyfforddiant cydsynio a darparu gwybodaeth fanwl mewn perthynas â chydsyniad. Mae’r wybodaeth hon wedi cael ei darparu mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys dogfennau, rhannu gwybodaeth, addysg a hyfforddiant parhaus, ynghyd ag adolygiad cymheiriaid o’r broses gydsynio. Ar ben hynny, ers mis Ionawr 2024, mae hyfforddiant cydsynio wedi cael ei fandadu ar gyfer yr holl staff clinigol yn y Gwasanaeth sy’n rhan o’r broses gydsynio ar gyfer triniaethau ymwithiol.
- Oherwydd pryder ynghylch dogfennau aneglur yn ymwneud ag arsylwi cleifion / nyrsys yn y gwasanaeth MHL, adolygwyd y Polisi Ymgysylltu ac Arsylwi Therapiwtig yn 2023, ac roedd yn diffinio’r meini prawf ar gyfer cynyddu a lleihau arsylwadau nyrsio. Rhoddwyd pecyn hyfforddi ar waith mewn perthynas â’r polisi hwn ac mae’n parhau i gael ei weithredu wrth i’r grŵp staffio newid gyda recriwtiaid newydd.

Y prif wersi a ddygwyd

Erlyniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Daeth y Bwrdd Iechyd i’r llys ym mis Rhagfyr 2023 gan wynebu cyhuddiadau o dan Adran 3 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 yn dilyn digwyddiad difrifol mewn gwasanaethau iechyd meddwl ym mis Ebrill 2021.

Cafwyd ple euog gan y Bwrdd Iechyd a chafodd ei ddedfrydu i ddirwy o £200,000 ynghyd â chostau a gordal.

Cyflwynwyd bwndel o dystiolaeth i’r llys yn dangos y gwelliannau a wnaed ers y digwyddiad, a oedd yn cynnwys y canlynol

- hyfforddiant ychwanegol sylweddol i staff mewn asesu a rheoli risg.
- diweddarau’r Polisi Ymgysylltu ac Arsylwi Therapiwtig, sy’n rhoi arweiniad i staff ar sut y dylid cynorthwyo ac arsylwi ar gleifion sydd mewn perygl, a datblygu a darparu hyfforddiant i staff i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â’r polisi.
- diwygio’r Fframwaith Gofal Aciwt sy’n gosod y safonau a ddisgwyllir gan staff o ran cynlluniau gofal a thriniaethau i gleifion.
- cynnal archwiliadau ansawdd a diogelwch ar draws wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl i adolygu safonau cadw cofnodion a rheoli risg.

- mae rhaglen barhaus o asesiadau risg clymu ar waith ar gyfer pob ward, wedi'i goruchwyllo gan Grŵp Lleihau Risgiau Clymu newydd.
- cynhaliwyd adolygiadau risg clymu allanol ac annibynnol o'r wardiau.
- diweddarau'r Polisi Chwilio am Gleifion a'u Heiddo a darparu hyfforddiant i staff i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r polisi.
- yn fwyaf arwyddocaol, rhoi terfyn ar garfannau cymysg rheolaidd oedolion hŷn ac oedolion oed gweithio yn Uned Hergest, sy'n golygu mai dim gwelyau lleihau clymiadau sy'n cael eu defnyddio fel mater o drefn gyda phroses uwchgyfeirio glir ar gyfer defnyddio gwelyau ysbyty traddodiadol yn unig yn ôl yr angen clinigol.

Hefyd, cynhaliwyd adolygiad archwilio mewnol o'r dystiolaeth ochr yn ochr â phroses sicrwydd dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Uned Hergest ym mis Mai 2023. Dywed yr adroddiad: *“Roedd prosesau ac archwiliadau wedi’u sefydlu ar waith i reoli risg ac iechyd a diogelwch, a oedd yn galluogi staff i barhau i ddarparu gofal diogel sy’n effeithiol yn glinigol.”*

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr ddatganiad ar ôl i'r gwrandawriad ddod i ben: *“Fy nghydymdeimladau i deulu ac anwyliaid Dawn Owen am eu colled drasig. Ar ran y Bwrdd, hoffwn bwysleisio fy edifeirwch am y methiannau o ran ei gofal. Rydyn ni'n benderfynol o barhau i wella diogelwch a phrofiad y gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu, ac er bod y mwyafrif helaeth o gleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol, byddwn yn sicrhau, pan fyddwn ni'n methu, bod hyn yn sbarduno newid hirdymor.”*

Hysbysiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol

Mae Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i grwner gyflwyno Hysbysiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol Rheoliad 28 i unigolyn neu sefydliad lle mae'r crwner yn credu y dylid cymryd camau i atal rhagor o farwolaethau.

Cymeradwyodd y Tîm Gweithredol Weithdrefn Cwest newydd ym mis Hydref 2023. Sefydlwyd Panel Goruchwyllo Cwest bob pythefnos hefyd yn ystod yr hydref i ddarparu cymorth gweithredol i sicrhau bod terfynau amser cyflwyno'n cael eu cyflawni, gan fod Uwch Grwneriaid Gogledd Cymru wedi mynegi pryder ynghylch cwblhau ymchwiliadau'n brydlon.

Yn ystod y flwyddyn, mae gan y Bwrdd Iechyd nifer sylweddol uwch o Hysbysiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (PFD) Rheoliad 28. Ar draws yr hysbysiadau a dderbyniwyd, daeth tair thema allweddol i'r amlwg:

- Oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansiau, a phwysau ar Adrannau Achosion Brys.
- Diffyg cofnodion electronig neu nad ydynt wedi cael eu hintegreiddio'n ddigonol
- Prydlondeb neu ansawdd ymchwiliadau neu ddysgu

Mae'r canlynol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith gwella sydd ar y gweill:

Oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansiau, a phwysau ar Adrannau Achosion Brys.

Mae ein Rhaglen Gwella Gofal Brys ac Argyfwng yn ymgorffori'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau Mesurau Arbennig a'r Chwe Nod Cenedlaethol ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng, gan ddefnyddio dull system gyfan sy'n cynnwys cryfhau gofal sylfaenol, cydweithio â'n partneriaid yn yr awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST). Yn ystod y flwyddyn i ddod (a thu hwnt) byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi a chryfhau ein gallu i ddarparu gwasanaethau busnes fel arfer, drwy adolygu sut

rydym yn darparu'r gwasanaethau hynny, a thrwy symud adnoddau presennol i naill ai gefnogi neu weithio mewn ffordd wahanol.

Rydym wedi adfer Rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng (UEC). Bydd y bwrdd rhaglen hwn yn adolygu perfformiad yn erbyn metrigau allweddol gan gynnwys canolbwyntio ar yr amser o 4 awr y mae'n cymryd i drosglwyddo ambiwlans yn ogystal â chynnydd y rhaglen gwella Chwe Nod. Bydd Grwpiau Gofal Brys ac Argyfwng ar gyfer pob ysbyty'n adrodd i'r bwrdd hwn ar y camau sy'n cael eu cymryd yn lleol.

Diffyg cofnodion electronig neu nad ydynt wedi cael eu hintegreiddio'n ddigonol

Mewn perthynas â chofnodion electronig, fe wnaethom ddatblygu achos busnes amlinellol strategol ar gyfer system Cofnod Electronig Cleifion (EPR) ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW). Ar ôl sicrhau cyllid, bydd amserlen o ddim llai na thair blynedd ar gyfer cyflawni prosiect trawsnewid mor sylweddol, fel sy'n ofynnol yn achos y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn seiliedig ar asesiad annibynnol o'n hangen busnes o ran pobl, ymarfer a thechnoleg gan Ethical Healthcare Consulting sydd wedi bod yn ein helpu gyda'r achos busnes hwn. Cafodd Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR) ei greu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gan weithio gyda nyrsys a chydweithwyr eraill ar draws GIG Cymru i greu system ddigidol gyda dogfennau nyrsio safonol. Mae Cofnod Gofal Nyrsio Cymru wedi cael ei gyflwyno ar draws holl wasanaethau cleifion mewnol y Bwrdd Iechyd. Fel rhan o'r symud i Gofnod Gofal Nyrsio Cymru, roedd angen safonau nyrsio cenedlaethol i fynd i'r afael â dyblygu dogfennau ac anghysondebau mewn cofnodion nyrsio ledled Cymru. Roedd cydweithio sefydiadol ac amlddisgyblaethol ar draws GIG Cymru yn allweddol i ddatblygu'r safonau hyn. Mae rhaglen waith wedi llwyddo i gysylltu fersiynau ar wahân o System Gweinyddu Cleifion Cymru (PAS Cymru) yng Ngogledd Cymru, gan ddod â holl rannau'r Bwrdd Iechyd at ei gilydd mewn un fersiwn o PAS Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio'n ddi-oed ar raglen genedlaethol y System Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (ePMA), ac mae nawr yn dechrau ar gam gweithredu'r prosiect ePMA.

Prydlondeb neu ansawdd ymchwiliadau neu ddysgu

Comisiynodd y Prif Weithredwr adolygiad ôl-weithredol o'r holl adroddiadau ymchwiliadau a'r dogfennau cysylltiedig, hyd at ddiwedd mis Ionawr 2024, a gyflwynwyd (neu a fyddai'n cael eu cyflwyno) i'r Crwner. Cynhaliwyd pob adolygiad i benderfynu a oedd yr ymchwiliad a'r cynllun gweithredu'n ddigonol neu a oes angen gwneud gwaith adfer. Adolygwyd cyfanswm o 262 achos. Nodwyd gwersi sylweddol o ran sut aeth y Bwrdd Iechyd ati i gynnal ei ymchwiliadau, a oedd yn cyd-fynd ag arsylwadau'r Crwner. Felly, comisiynodd y Prif Weithredwr raglen waith arall i ddatblygu Polisi Integredig newydd ar gyfer Adolygiadau o Ddigwyddiadau, Cwynion a Marwolaethau. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddorau Iechyd oruchwylio'r gwaith hwn gyda chefnogaeth gweithgor dan arweiniad y Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwahanol dimau ansawdd sy'n rhan o'r broses, ac sy'n ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r materion a'r gweithgareddau ymgysylltu uchod gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol dros y misoedd diwethaf. Cafodd polisi newydd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024 a bydd yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2024 ymlaen.